



Adroddiad ar Astudiaeth

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Paratowyd ar gyfer: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Paratowyd gan: BMG

**Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy
Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Paratowyd ar gyfer: Iechyd Cyhoeddus Cymru
Paratowyd gan: BMG
Dyddiad: Ebrill 2023**



Cynhyrchwyd gan BMG Research
© BMG Research Ltd, 2023
www.bmgresearch.co.uk

Prosiect: 2326

Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2841970

Swyddfa gofrestredig:

BMG Research

Beech House

Greenfield Crescent

Edgbaston

Birmingham

B15 3BE

Y DU

Ffôn: +44 (0) 121 333 6006

Rhif Cofrestru TAW y DU 580 6606 32

Rhif Aelod Siambr Fasnach Birmingham B4626

Partner Cwmni Cymdeithas Ymchwil y Farchnad

Darparu Gwasanaethau Ymchwil i'r Farchnad yn unol ag ISO 20252:2012

Darparu Gwasanaethau Ymchwil i'r Farchnad yn unol ag ISO 9001:2015

Safon Ryngwladol ar gyfer Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ISO 27001:2013

Cwmni yn Aelod o Gynllun Rheoli Ansawdd Cyfwelwyr

Cofrestrwyd o dan y Ddeddf Diogelu Data—Rhif Cofrestru. Z5081943

Sefydliad Data Teg

Ardystiad Cyber Essentials

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	Error! Bookmark not defined.
1.1	Cefndir	Error! Bookmark not defined.
1.2	Amcanion yr astudiaeth	Error! Bookmark not defined.
1.3	Methodoleg	Error! Bookmark not defined.
1.4	Sampl a gyflawnwyd	Error! Bookmark not defined.
1.5	Am yr adroddiad hwn.....	Error! Bookmark not defined.
2.	Canfyddiadau ac argymhellion allweddol.....	Error! Bookmark not defined.
2.1	Crynodeb o ganfyddiadau allweddol	Error! Bookmark not defined.
2.2	Defnyddwyr gwasanaeth	Error! Bookmark not defined.
2.3	Darparwyr gwasanaeth	Error! Bookmark not defined.
3.	Defnyddwyr Gwasanaeth	Error! Bookmark not defined.
3.1	Ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd am iechyd.....	Error! Bookmark not defined.
3.2	Ymwybyddiaeth wedi'i hysgogi o'r holl frechiadau sydd ar gael.....	Error! Bookmark not defined.
3.3	Agweddau tuag at frechiadau.....	Error! Bookmark not defined.
3.4	Y gallu i gael gafael ar wybodaeth a'r broses o wneud penderfyniadau	Error! Bookmark not defined.
3.5	Derbyn brechlynnau, rhwystrau ac ysgogiadau	Error! Bookmark not defined.
3.6	Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd ICC ..	Error! Bookmark not defined.
4.	Darparwyr Gwasanaeth.....	Error! Bookmark not defined.
4.1	Sgyrsiau am frechiadau	Error! Bookmark not defined.
4.2	Ymwybyddiaeth wedi'i hysgogi o'r holl frechiadau sydd ar gael.....	Error! Bookmark not defined.
4.3	Cael gafael ar wybodaeth a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau	Error! Bookmark not defined.
4.4	Derbyn brechlynnau, rhwystrau ac ysgogiadau ..	Error! Bookmark not defined.
4.5	Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd ICC ..	Error! Bookmark not defined.
	Atodiad 1: Proffil sampl meintiol.....	Error! Bookmark not defined.
	Atodiad 2: Proffil sampl ansoddol	Error! Bookmark not defined.
	Atodiad 3: Deunyddiau a werthuswyd yn yr arolwg meintiol	Error! Bookmark not defined.
	Atodiad 4: Deunyddiau a werthuswyd yn y grwpiau ffocws ansoddol a'r cyfweiliadau	Error! Bookmark not defined.

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Atodiad 5: Holiadur arolwg—Defnyddwyr gwasanaeth **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 6: Holiadur arolwg—darparwyr gwasanaeth **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 7: Arweiniad pwnc ansoddol—Defnyddwyr gwasanaeth **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 8: Arweiniad pwnc ansoddol—Darparwyr gwasanaeth **Error! Bookmark not defined.**

Ffigurau

Ffigur 1: Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi gweld, darllen neu glywed unrhyw beth am y pynciau canlynol ynglŷn ag iechyd pobl?..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 2: Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi gweld, darllen neu glywed unrhyw beth am frechiadau/imiwneiddiadau i bobl? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 3: Pa frechiad oedd y sgwrs amdano? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 4: A beth ydych chi'n ei gofio fwyaf am yr hyn a welsoch neu'r hyn a glywsoch? Beth oedd yn ei ddweud/beth wnaethoch chi ei ddysgu amdano?.. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 5: Yn gyffredinol, a oedd yr wybodaeth a welsoch chi ... ? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 6: A ble y gwnaethoch chi weld neu glywed hyn?..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 7: A oes unrhyw beth yr ydych chi wedi dod ar ei draws a fyddai'n peri i chi bryderu neu boeni am gael brechiad?..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 8: Pa frechiad(au) y gwnaeth i chi deimlo'n bryderus amdanynt? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 9: A ble wnaethoch chi weld neu glywed yr wybodaeth hon a fyddai'n gwneud i chi bryderu ynglŷn â chael brechiad? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 10: Pa frechlynnau ydych chi'n meddwl sydd ar gael i bobl yng Nghymru ar hyn o bryd?..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 11: Pa mor ddifrifol ydych chi'n meddwl y gallai fod i'ch iechyd pe baech yn cael un o'r clefydau hyn?..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 12: Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo'n bersonol y mae'r brechlynnau hyn? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 13: Ydych chi'n meddwl bod unrhyw frechlynnau sy'n waeth i chi na'r salwch/clefyd ei hun? Os felly, pa rai? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 14: Yn awr, dangosir cyfres o ddatganiadau i chi am bethau y mae pobl eraill wedi eu dweud am frechiadau. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 15: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?.. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 16: Pa rai o'r canlynol ydych chi wedi eu defnyddio cyn heddiw i gael gwybodaeth am frechiadau? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 17: Ac i ba raddau ydych chi'n ymddiried yn yr wybodaeth a roddir i chi o'r ffynonellau hyn? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 18: Wrth ystyried yr imiweiddiadau a gynigwyd i chi hyd yn hyn, pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 19: Gan feddwl am yr holl frechiadau sydd wedi'u cynnig i chi hyd yn hyn, ydych chi erioed wedi gwrthod neu ohirio brechiad? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 20: Pa frechiad(au) wnaethoch chi eu gwrthod neu eu gohirio? ..**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 21: Pam gwnaethoch chi benderfynu gwrthod neu ohirio'r brechiad(au)?..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 22: A fyddai unrhyw beth yn eich annog i beidio â gwrthod neu ohirio brechiad(au) yn y dyfodol? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 23: Pam gwnaethoch chi benderfynu cael yr holl frechiadau a gafodd eu cynnig i chi? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 24: A ydych chi wedi gweld unrhyw rai o'r taflenni gwybodaeth neu'r postiadau cyfryngau cymdeithasol hyn cyn heddiw? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 25: Ble wnaethoch chi weld hyn? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 26: Oeddech chi wedi gweld y logo isod cyn heddiw? .. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 27: Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael yw elfennau canlynol y taflenni gwybodaeth/postiadau cyfryngau cymdeithasol? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 28: Ac i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol?.. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 29: A pha rai o'r canlynol ydych chi'n arfer eu defnyddio o leiaf ddwywaith yr wythnos? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 30: Ac a hoffech gael adnoddau gwybodaeth am y brechiadau sydd ar gael mewn unrhyw un o'r fformatau hygyrch canlynol? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 31: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi cael unrhyw sgysiau neu gwestiynau gan eich defnyddwyr gwasanaeth am unrhyw un o'r pynciau isod? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 32: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi cael unrhyw sgysiau neu gwestiynau/sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth am imiweiddio/brechus? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 33: Pa frechiad oedd y sgwsr amdano? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 34: A pha mor aml ydych chi'n tueddu i gael sgysiau am frechiadau â'ch defnyddwyr gwasanaeth? **Error! Bookmark not defined.**

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ffigur 35: Ac yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych wedi cael unrhyw sylwadau neu gwestiynau gan ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn poeni neu'n pryderu am gael brechiadau? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 36: Pa frechiad(au) wnaethoch chi deimlo'n bryderus amdanyn nhw? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 37: A beth oedden nhw'n poeni amdano? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 38: Pa frechlynnau ydych chi'n meddwl sydd ar gael i staff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 39: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?.. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 40: Pa rai o'r canlynol ydych chi wedi eu defnyddio cyn heddiw i gael mwy o wybodaeth am frechiadau neu i gyfeirio eich defnyddwyr gwasanaeth atynt fel y gallant gael rhagor o wybodaeth am frechiadau? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 41: Ac i ba raddau ydych chi'n ymddiried yn yr wybodaeth am frechu o'r ffynonellau hyn? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 42: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi cael unrhyw sgysiaid ag un neu fwy o ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn betrusgar ynghylch a ddylent gael eu brechu ai peidio? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 43: A pha frechlynn(au) oedden nhw'n betrusgar yn eu cylch? ...**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 44: Ac a oedd gennych yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnoch i siarad â'ch defnyddw(y)r gwasanaeth? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 45: Ac a wnaeth eich defnyddw(y)r gwasanaeth newid eu meddwl? . **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 46: Gan feddwl unwaith eto am eich profiad o ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth, beth ydych chi'n meddwl yw'r rhesymau pam fo rhai ohonynt yn gwrthod brechiadau? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 47: A chan feddwl unwaith eto am eich profiad o ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth, beth ydych chi'n meddwl yw ysgogiadau eich defnyddwyr gwasanaeth dros gael eu brechu pan fo brechlynnau'n cael eu cynnig iddynt? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 48: A ydych chi wedi gweld unrhyw un o'r adnoddau hyn cyn heddiw? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 49: Ble wnaethoch chi weld hyn? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 50: Oeddech chi wedi gweld y logo isod cyn heddiw? .. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 51: Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael yw elfennau canlynol y taflenni gwybodaeth/postiadau cyfryngau cymdeithasol? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 52: Ac i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? . **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 53: Ac a hoffech chi gael y math yma o adnoddau gwybodaeth am frechiadau ar gael mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg?..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 54: Ym mha ieithoedd yr hoffech chi gael adnoddau gwybodaeth am frechiadau ar gael ynddynt? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 55: Ac a hoffech gael adnoddau gwybodaeth am y brechiadau sydd ar gael mewn unrhyw un o'r fformatau hygyrch canlynol? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 56: A hoffech y fformatau hygyrch hyn i'w defnyddio eich hun, ar gyfer eich defnyddwyr gwasanaeth neu'r ddau? **Error! Bookmark not defined.**

Tablau

Tabl 1: Defnyddwyr gwasanaeth—cyfansoddiad sampl **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 2: Darparwyr gwasanaeth—cyfansoddiad sampl..... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 3: Yn gyffredinol, a oedd yr wybodaeth a welsoch/clywsoch ... fesul ffynhonnell (Defnyddwyr Gwasanaeth)..... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 4: Proffil sampl defnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 5: Proffil sampl darparwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol..... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 6: Proffil sampl defnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws..... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 7: Proffil sampl defnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn y cyfweiliadau..... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 8: Proffil sampl defnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 9: Proffil sampl darparwyr gwasanaeth a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ansoddol **Error! Bookmark not defined.**

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau rhaglen casglu data meintiol ac ansoddol sy'n archwilio effeithiolrwydd adnoddau gwybodaeth a gynhyrchir gan y Rhaglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP). Mae VPDP yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd yn ICC. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan BMG Research ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn 2022–2023.

1.1 Cefndir

Imiwneiddio yw'r ffordd bwysicaf o ddiogelu unigolion a'r gymuned rhag clefydau ataliadwy a rheoli achosion o glefydau heintus. Mae rhaglen frechu genedlaethol sefydledig yng Nghymru, ac yn 2005, sefydlwyd Rhaglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi hyn. Yn rhan o hyn, mae'r tîm VPDP yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adnoddau gwybodaeth ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol.

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at gynnydd yn nifer yr adnoddau am frechiadau y mae angen eu cynhyrchu, a chyflymder y gwaith o wneud hynny, i sicrhau bod gan y cyhoedd wybodaeth hygyrch i seilio penderfyniadau amserol am frechiadau arni. O'r herwydd, ar ddiwedd 2022, comisiynodd ICC BMG Research i gynnal gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth.

Mae'r gwerthusiad hwn yn cyd-fynd â dull cydgynhyrchu ICC. Mae'r dull hwn yn cyfeirio at ffordd o weithio lle mae defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd i gyrraedd consensws, ac mae eu safbwyntiau yn ffactor pwysig wrth ddatblygu adnoddau gwybodaeth.

1.2 Amcanion yr astudiaeth

Nod yr astudiaeth yw archwilio ymwybyddiaeth ac effeithiolrwydd adnoddau gwybodaeth ICC sy'n ymwneud â brechiadau ymhlith darparwyr gwasanaeth (y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu rhaglenni brechu) ac ystod eang o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth (y rhai sy'n derbyn brechlynnau). Manylir am y grwpiau a dargedwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn yr is-adran ganlynol.

Wrth asesu gwerth ac effeithiolrwydd adnoddau gwybodaeth ynghylch brechiadau, mae'r astudiaeth yn bwriadu cadarnhau:

- A yw darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol o'r adnoddau gwybodaeth presennol
- Safbwyntiau am adnoddau gwybodaeth mewn cysylltiad â negeseuon, cynnwys, sianeli, fformatau, amseroldeb, cywirdeb, hygyrchedd, dibynadwyedd a pherthnasedd i'w cynulleidfa arfaethedig

- A yw adnoddau gwybodaeth ICC yn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus ar frechiadau neu a allai unrhyw wybodaeth fod ar goll
- Y ffynonellau gwybodaeth mwyaf dibynadwy am frechu

Nod yr astudiaeth hefyd yw deall gwahaniaethau mewn sylwadau rhwng is-grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i gadarnhau a allai adnoddau a dulliau rhannu gwybodaeth fod yn fwy neu'n llai effeithiol ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth, a sut felly.

1.3 Methodoleg

1.3.1 Arolwg meintiol

Cynhaliwyd cyfweiliadau yn rhan o'r arolwg gan ddefnyddio Cyfweiliad Gwe â Chymorth Cyfrifiadur (CAWI). Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 5 Rhagfyr 2022 a 20 Chwefror 2023.

Roedd dwy fersiwn o'r arolwg, un ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ac un ar gyfer darparwyr gwasanaeth. Roedd gan y ddau arolwg gwestiynau tebyg, gyda rhai amrywiadau yn dibynnu a oedd y cwestiynau yn cael eu gofyn i ddefnyddwyr neu ddarparwyr gwasanaeth. Gellir dod o hyd i'r holiaduron a ddefnyddiwyd ar gyfer pob arolwg yn yr atodiadau.

Cymerodd pob cyfweiliad tua 15 munud i'w gwblhau.

Cwblhaodd cyfanswm o 586 o ddefnyddwyr gwasanaeth a 70 o ddarparwyr gwasanaeth yr arolwg (dim ond y rhai a gwblhawyd yn llawn a ystyrir). Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, cwblhawyd y mwyafrif o'r ymatebion gan ymatebwyr panel¹ a chwblhawyd lleiafswm ohonynt drwy ddolen agored a ddosbarthwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru i'w rwydweithiau. Dim ond drwy'r ddolen agored y cwblhaodd darparwyr gwasanaeth yr arolwg, gydag lechyd Cyhoeddus Cymru a'i bartneriaid yn dosbarthu'r arolwg i ymatebwyr perthnasol.

	Cyfanswm	Panel	Dolen agored
Defnyddwyr Gwasanaeth	586	529	57
Darparwyr Gwasanaeth	70	0	70

Nod yr arolwg oedd casglu safbwyntiau amrywiaeth eang o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth. Gellir dod o hyd i amlinelliad manwl o broffil yr

¹ Grŵp o unigolion sydd wedi eu recriwtio ymlaen llaw sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn arolygon a/neu ymchwil ansoddol yw panel ymchwil. Mae cyfranogwyr yn arfer rhannu gwybodaeth ddemograffig (rhywedd, oedran, ethnigrwydd, ac ati) a ddefnyddir wedyn gan ymchwilwyr i dargedu grwpiau poblogaeth penodol.

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol yn yr atodiadau, a darperir trosolwg o'r sampl a gyflawnwyd yn yr adran ganlynol.

1.3.2 Grwpiau ffocws ansoddol

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda defnyddwyr gwasanaeth i archwilio themâu'r arolwg yn fanylach, gyda phwyslais ar archwilio agweddau tuag at frechiadau, yn ogystal ag ymwybyddiaeth a safbwyntiau am wybodaeth am frechiadau.

Cynhaliwyd cyfanswm o bum grŵp ffocws, gyda chyfanswm o 36 o ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd pob un o'r grwpiau hyn yn cynnwys grŵp targed gwahanol—un ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth dros 55 oed, un ar gyfer y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, un ar gyfer mamau beichiog neu famau newydd, un ar gyfer pobl sydd ag anableddau ac un ar gyfer pobl 16 i 24 oed.

Cafodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws eu recriwtio gan recriwtwyr proffesiynol o banel o gyfranogwyr a oedd wedi cytuno i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil ymlaen llaw. Darparodd BMG holiadur sgrinio i'r recriwtwyr a rhestr o grwpiau targed (gweler 1.4 Sampl a gyflawnwyd) i gynorthwyo'r broses recriwtio.

Parhaodd y grwpiau ffocws tua 90 munud ac fe'u cynhaliwyd ar Zoom rhwng 14 Chwefror a 21 Chwefror. Cynigiwyd tocyn rhodd £50 i'r cyfranogwyr i ddiolch iddynt am eu hamser.

Ceir rhagor o fanylion am broffil y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn yr atodiadau.

1.3.3 Cyfweiliadau ansoddol

Yn ogystal â grwpiau ffocws, cynhaliwyd cyfweiliadau manwl gyda defnyddwyr gwasanaeth i archwilio themâu a nodwyd yn yr arolwg yn fanylach, gyda phwyslais ar ddatgelu'r rhesymeg y tu ôl i agweddau tuag at frechiadau, yn ogystal ag argraffiadau ac ymwybyddiaeth o wybodaeth am frechiadau. Hefyd, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda darparwyr gwasanaeth i ddeall eu hanghenion gwybodaeth yn well ac i gael eu sylwadau ar yr adnoddau gwybodaeth presennol.

Gellir dod o hyd i'r canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfweiliadau ansoddol a grwpiau ffocws yn yr atodiadau.

Cynhaliwyd cyfanswm o 13 o gyfweiliadau gyda defnyddwyr gwasanaeth, a chwe cyfweiliad gyda darparwyr gwasanaeth. Fel y gwnaed ar gyfer y grwpiau ffocws, cafodd defnyddwyr gwasanaeth eu recriwtio ar gyfer cyfweiliadau drwy recriwtwyr proffesiynol i dargedu ystod o grwpiau demograffig. Fodd bynnag, cafodd darparwyr gwasanaeth eu recriwtio drwy gwestiwn optio i mewn yn yr arolwg, yn ogystal â thrwy bartneriaid Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynhaliwyd cyfweiliadau drwy Zoom neu Teams, ac roeddent yn para oddeutu 30 munud. Cynigiwyd tocyn rhodd £30 i'r defnyddwyr gwasanaeth i ddiolch iddynt am eu hamser.

Ceir rhagor o fanylion am broffil y rhai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau manwl yn yr atodiadau.

1.4 Sampl a gyflawnwyd

1.4.1 Cyfansoddiad sampl

Mae'r ymchwil hon wedi ceisio casglu safbwyntiau ystod eang o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth. Dangosir nifer y bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil fesul is-grŵp a gyrhaeddwyd yn y tablau isod.

Tabl 1: Defnyddwyr gwasanaeth—cyfansoddiad sampl

DEFNYDDWYR GWASANAETH	Nifer y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol	Nifer y bobl a gymerodd ran mewn cyfweiliadau manwl ansoddol/grwpiau ffocws
Preswylwyr hŷn (55+ oed)	242	9
Rhieni plant o dan 18 oed	154	0
Pobl sy'n dweud bod ganddynt anabledd	134	7
Pobl LGBTQ+	104	1
Gofalwyr (gofalwyr teulu/di-dâl)	49	2
Lleiafrifoedd ethnig	35	9
Myfyrwyr llawn amser	24	4
Gofalwyr yn y cartref	16	0
Preswylwyr y mae eu prif iaith yn iaith heblaw Gymraeg/Saesneg	15	3
Moslemiaid	10	0
Pobl feichiog/mamau newydd	5	6
Iddewon	3	0
Preswylwyr cartrefi gofal	3	0
Ffoaduriaid a cheiswyr lloches	0	0
Preswylwyr carchar	0	0

Tabl 2: Darparwyr gwasanaeth—cyfansoddiad sampl

DARPARWYR GWASANAETH	Nifer y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol	Nifer y bobl a gymerodd ran mewn cyfweiliadau manwl ansoddol/grwpiau ffocws
Staff gofal sylfaenol	43	3
Staff gofal eilaidd	13	2
Staff gofal cymdeithasol	4	0
Staff gofal iechyd mewn ysgol (e.e. nyrs ysgol)	3	1
Staff cartrefi gofal	1	0
Swyddogion allgymorth ac ymgysylltu	1	0
Arall	5	0

1.4.2 Cyfyngiadau

Er bod ystod eang o grwpiau darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn yr ymchwil (fel y dangosir yn y tablau uchod), mae gan ychydig o is-grwpiau faint sylfaen meintiol sydd o dan 30 nad yw'n caniatáu dadansoddiad ar lefel is-grŵp. Pan fo meintiau sylfaen yn caniatáu hynny, darparwyd dogfennau cryno ar wahân sy'n dangos canfyddiadau ac argymhellion allweddol ar gyfer pob is-grŵp.

Mae'r is-grwpiau sydd â meintiau sylfaen o dan 30 yn cynnwys:

- pob grŵp darparwyr gwasanaeth a restrir uchod ac eithrio staff gofal sylfaenol.
- y grwpiau defnyddwyr gwasanaeth canlynol: gofalwyr yn y cartref, preswylwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu prif iaith, menywod beichiog, preswylwyr cartrefi gofal, Iddewon a Moslemiaid.

Hefyd, er gwaethaf ymdrechion gan ICC i sicrhau bod gan BMG fynediad i staff carchardai a phreswylwyr carchardai yn ogystal â staff cartrefi gofal a ffoaduriaid/ceiswyr lloches, nid oedd yn bosibl cynnwys y grwpiau hyn yn yr ymchwil oherwydd diffyg ymateb gan arweinwyr neu oherwydd yr amser y byddai clirio moesegol yn ei gymryd.

Mae'n werth nodi hefyd, er bod rhai preswylwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu prif iaith wedi eu cynnwys yn yr ymchwil fel y dangosir yn y tabl uchod, roedd y cyfranogwyr hyn yn rhugl yn y Saesneg ac yn gallu cwblhau'r arolwg yn Saesneg/cymryd rhan mewn cyfweiliadau ansoddol yn Saesneg. Mae hyn yn awgrymu efallai bod angen ymchwil pellach i estyn allan at breswylwyr y mae iaith yn rhwystr iddynt ddeall eu hanghenion gwybodaeth a'u dewisiadau o ran brechiadau.

Argymhellir ymchwil pellach hefyd gyda'r is-grwpiau y sonnir amdanynt uchod yr ystyrir nad yw nifer y cyfranogwyr yn ddigonol ar eu cyfer.

1.5 Am yr adroddiad hwn

1.5.1 Dull

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth yn eu tro ar lefel gyffredinol, gan dynnu sylw at wahaniaethau sylweddol ar gyfer is-grwpiau penodol pan fo hynny'n berthnasol. Darparwyd dogfennau ar wahân sy'n dangos canlyniadau ymchwil ac argymhellion ar gyfer is-grwpiau pan fo nifer y cyfranogwyr yn caniatáu hynny.

Mae cwestiynau meintiol a chanddynt feintiau sylfaen o 30 ac uwch wedi eu hadrodd fel canrannau, a defnyddiwyd rhifau cyfan i adrodd cwestiynau a chanddynt feintiau sylfaen o dan 30.

1.5.2 Pwysoli

Mae'r data a gyflwynwyd yn amhwysol. Mae hyn oherwydd bod amledd y rhan fwyaf o'r grwpiau targed yn anhysbys. Serch hynny, pennwyd cwotâu i sicrhau cynrychiolaeth dda fesul bwrdd iechyd, ethnigrwydd ac oedran.

1.5.3 Profion arwyddocâd

Trwy gydol yr adroddiad, trafodir canlyniadau o ran gwahaniaethau rhwng is-grwpiau a chyfanswm y canlyniad. Mae is-grwpiau wedi eu profi am arwyddocâd, gyda T-brawf dwy gynffon ar gyfrannau colofn. Ystyrir gwahaniaethau yn sylweddol ar gyfwrng hyder o 95%, sy'n golygu mai dim ond pum y cant yw'r posibilrwydd bod y gwahaniaeth wedi digwydd drwy hap a damwain yn hytrach na thrwy fod yn wahaniaeth gwirioneddol. Mae hon yn lefel hyder a dderbynnir yn gyffredin.

Mae'r holl wahaniaethau a amlygir yn yr adroddiad hwn yn ystadegol arwyddocaol oni nodir yn wahanol. Os na sonnir am grŵp wrth drafod cwestiwn penodol, mae hyn oherwydd bod canlyniadau'r grŵp hwnnw yn cyd-fynd â chyfanswm y canlyniad ac nid oes gwahaniaethau sylweddol.

1.5.4 Talgrynnu

Mae'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn wedi eu talgrynnu i fyny neu i lawr i'r pwynt canrannol cyfan agosaf. Oherwydd hyn, ar brydiau, gallai tablau neu siartiau adio i 99% neu 101%.

1.5.5 Confensiynau adrodd

Mae symbol *% yn nodi canran sy'n fwy na sero ond yn islaw 0.5%.

2. Canfyddiadau ac argymhellion allweddol


Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau cryno o'r arolygon a'r grwpiau ffocws ansoddol a chyfweliadau â defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth, a oedd yn archwilio agweddau tuag at frechiadau, y gallu i gael gwybodaeth am frechiadau ac ymwybyddiaeth a safbwyntiau am gyhoeddusrwydd ICC. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Chwefror 2023.

Darperir canlyniadau ar lefel gyffredinol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth yn eu tro, sy'n amlinellu gwahaniaethau sylweddol ar gyfer is-grwpiau o ddefnyddwyr a darparwyr pan fo hynny'n bosibl. Darperir dadansoddiad is-grŵp pellach mewn dogfennau ar wahân.


Dangosir argymhellion mewn print **trwm** er mwyn hwyluso'r darllenydd.

2.1 Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

Defnyddwyr Gwasanaeth



Darparwyr Gwasa



2.2 Defnyddwyr gwasanaeth

Ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd cyffredinol am frechiadau

- Mae'r mwyafrif o'r defnyddwyr gwasanaeth (89%) wedi gweld neu glywed gwybodaeth am frechiadau yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn awgrymu bod gwybodaeth am frechiadau yn eang ac ar gael yn eang. Felly, **mae angen i adnoddau gwybodaeth ICC am frechu ganolbwyntio ar wahaniaethu er mwyn tynnu sylw defnyddwyr gwasanaeth a sicrhau eu bod yn ymgysylltu â deunyddiau gwybodaeth.** I'r perwyl hwn, darperir rhai argymhellion i wella'r deunyddiau gwybodaeth presennol isod (gweler y safbwyntiau ar is-adran cyhoeddusrwydd ICC).
- Mae siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol na grwpiau eraill o fod wedi gweld neu glywed gwybodaeth am frechu yn ystod y 12 mis diwethaf (77%). **Dylai ICC hybu adnoddau gwybodaeth yn Gymraeg i sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg yn cael eu gadael ar ôl o ran cael gafael ar wybodaeth am frechiadau.**
- Er nad oedd y mwyafrif (73%) o'r defnyddwyr gwasanaeth wedi gweld na chlywed unrhyw wybodaeth a fyddai'n peri iddynt boeni neu bryderu am gael eu brechu yn ystod y 12 mis diwethaf, mae 21% o'r defnyddwyr gwasanaeth wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n peri pryder am frechiadau. Cyfryngau cymdeithasol yw'r sianel mwyaf cyffredin lle mae defnyddwyr gwasanaeth wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n peri pryder am frechiadau. **Mae grwpiau oedran iau (16–24), rhieni plant o dan 18 oed, y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a phobl sy'n dweud eu bod yn drawsryweddol yn fwy tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n peri pryder am frechiadau, sy'n awgrymu y dylid creu adnoddau arddull 'chwalu mythau' i dargedu'r grwpiau hyn.**

Ymwybyddiaeth o'r rhaglen frechu

- Ymhlith defnyddwyr gwasanaeth, mae ymwybyddiaeth o'r rhaglen frechu yng Nghymru yn gymysg. Er bod ymwybyddiaeth o frechlyn COVID-19 (84%), y brechlyn fflw (76%) a'r brechlyn MMR (63%) yn uchel, mae ymwybyddiaeth o frechiadau eraill yn is, a llai na hanner y defnyddwyr gwasanaeth sy'n ymwybodol am y mwyafrif o frechlynnau y rhaglen frechu genedlaethol yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu bod **angen rhagor o adnoddau gwybodaeth gan ICC i addysgu defnyddwyr gwasanaeth am y brechlynnau sydd ar gael yng Nghymru a meini prawf cymhwyster y rhain.**
- Mae'r grwpiau defnyddwyr gwasanaeth canlynol yn llai tebygol o fod yn ymwybodol am nifer o frechiadau y rhaglen frechu genedlaethol yng Nghymru: **pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl 55+ oed, pobl LGBTQ+, a myfyrwyr llawn amser.** Dylai ICC ystyried creu adnoddau

gwybodaeth sydd wedi eu targedu i hysbysu'r grwpiau hyn am y brechiadau sydd ar gael a'r hyn y maent yn amddiffyn yn ei erbyn.

Agweddau tuag at frechiadau

- Mae o leiaf 45% o'r defnyddwyr gwasanaeth yn ystyried bod yr holl glefydau y mae rhaglen frechu Cymru yn diogelu rhagddynt yn ddifrifol. Ystyrir mai'r fflw, defaid gwenerol a rotafirws yw'r clefydau lleiaf difrifol, sy'n awgrymu y dylai **adnoddau gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth am y brechlynnau hyn ganolbwyntio ar egluro difrifoldeb a chyffredinolrwydd fflw, defaid gwenerol a rotafirws.**
- Mae pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o raddio nifer o glefydau y mae rhaglen frechu Cymru yn diogelu rhagddynt fel rhai nad ydynt yn ddifrifol, fel y mae pobl LGBTQ+. **Dylai adnoddau gwybodaeth ar gyfer pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl LGBTQ+ ganolbwyntio ar ddifrifoldeb clefydau er mwyn annog pobl i dderbyn brechlynnau.**
- Er bod y mwyafrif o'r defnyddwyr gwasanaeth (73%) yn cytuno bod pob brechiad yn peri llai o risg iddynt na'r clefydau y maent yn eu hamddiffyn yn eu herbyn, mae 19% o'r defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo bod o leiaf un brechlyn yn waeth iddynt na'r clefydau y maent yn eu amddiffyn yn eu herbyn, a brechlyn COVID-19 a ystyrir fel yr imiwneiddiad â'r risg fwyaf. **Mae hyn yn awgrymu y dylai adnoddau gwybodaeth am frechlyn COVID-19 ganolbwyntio ar egluro pam mae'r brechiad hwn yn ddiogel.**
- Mae oedolion ag anableddau yn llai tebygol o ddweud bod pob brechlyn yn peri llai o risg iddynt na'r clefydau y maent yn eu hamddiffyn yn eu herbyn, yn ogystal â phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a rhieni plant o dan 18 oed. **Dylai adnoddau gwybodaeth ar gyfer oedolion sydd ag anableddau, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a rhieni plant o dan 18 oed ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch brechlynnau er mwyn annog pobl i dderbyn brechlynnau.** Datgelodd grwpiau ffocws ansoddol gyda menywod beichiog fod y grŵp hwn hefyd yn fwy tebygol o fod â phryderon am ddiogelwch brechlynnau (yn fwyaf nodedig brechlyn COVID-19 o ystyried ei newydd-deb), sy'n awgrymu y **dylai adnoddau gwybodaeth ar gyfer menywod beichiog hefyd ganolbwyntio ar bwysleisio diogelwch brechlynnau.**
- Mae canfyddiadau cyffredinol am frechiadau ymhlith defnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol, gydag wyth o bob 10 yn cytuno bod brechlynnau'n gweithio, bod brechlynnau'n ddiogel a'u bod yn ymddiried mewn brechlynnau. Fodd bynnag, mae rhai pryderon am gynhwysion a sgil-effeithiau brechlynnau, a dywedodd 31% a 46% o'r defnyddwyr gwasanaeth yn y drefn honno eu bod yn poeni am yr agweddau hyn. Felly, **dylai adnoddau gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth gynnwys sicrwydd ynghylch cynhwysion a sgil-effeithiau brechlynnau.**

Y gallu i gael gafael ar wybodaeth a gwneud penderfyniadau

- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (52%), gwefan y GIG (42%), taflenni gwybodaeth y GIG (29%) a gwefan ICC yw'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddid amlaf i gael gwybodaeth am frechlynnau yn ystod y 12 mis diwethaf. Dim ond lleiafrif (10%) sydd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn weithredol i gael gwybodaeth am frechiadau.
- Er mai ffynonellau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yw'r ffynonellau y mae defnyddwyr gwasanaeth yn ymddiried ynddynt fwyaf, dywed 71% o'r defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol eu bod yn ymddiried yn yr wybodaeth ar y Llwyfannau hyn i ryw raddau o leiaf. Mae hwn yn ganfyddiad pwysig o ystyried bod yr wybodaeth a geir ar gyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gyfleu negeseuon cymysg o blaid ac yn erbyn brechu. **Dylai ICC fod â phresenoldeb gweithredol ar gyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod gwybodaeth wrthrychol am frechiadau ar gael ar y llwyfannau hyn.**
- Mae'r mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth (86%) yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid cael brechiadau ai peidio. Mae lefelau uchel o gytundeb hefyd o ran gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am frechiadau (95%) a gwybodaeth am sut mae brechlynnau'n gweithio (81%). Mae grwpiau oedran iau (16–24) a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am frechlynnau neu eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd iddi, sy'n awgrymu bod angen **adnoddau gwybodaeth bellach ar gyfer pobl iau a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylent gael eu brechu ai peidio.**
- Er bod dros hanner (57%) y defnyddwyr gwasanaeth yn dweud eu bod yn gwneud penderfyniadau awtomatig i gael eu holl imiwneiddiadau cyn gynted ag y bônt yn angenrheidiol/cael eu cynnig, mae cyfran sylweddol (37%) yn hoffi gwirio gwybodaeth cyn gwneud penderfyniad. Mae rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod yn hoffi gwirio gwybodaeth cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylent gael eu brechu ai peidio. Mae hyn yn awgrymu bod **angen adnoddau gwybodaeth yn gyffredinol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ymhlith defnyddwyr gwasanaeth, a hyd yn oed yn fwy felly ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.**

Derbyn brechlynnau, rhwystrau ac ysgogiadau

- Er bod y mwyafrif o'r defnyddwyr gwasanaeth (73%) yn dweud eu bod wedi cael yr holl frechiadau a gynigiwyd iddynt, dywed ychydig o dan un o bob pedwar (24%) eu bod wedi gohirio neu wrthod un neu fwy o frechiadau. Brechlynnau COVID-19 a'r fflw yw'r brechiadau sy'n cael eu gwrthod neu eu

gohirio fwyaf cyffredin ymhlith defnyddwyr gwasanaeth. Mae menywod, pobl LGBTQ+ a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod wedi gwrthod neu ohirio brechiadau. **Dylai adnoddau gwybodaeth ar gyfer menywod, pobl LGBTQ+ a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ganolbwyntio ar fanteision brechiadau er mwyn annog pobl i'w derbyn.**

- Diffyg ymddiriedaeth mewn brechlynnau yw'r rhwystr mwyaf cyffredin a ddyfynnwyd sy'n atal pobl rhag eu derbyn, ac yna canfyddiad nad oes angen brechlynnau ar ôl bod yn sâl a gwella ar ôl y salwch a chlywed am bobl eraill yn cael sgil-ffeithiau. **Dylai adnoddau gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ganolbwyntio ar fuddion brechlynnau er gwaethaf y posibilrwydd o wella ar ôl salwch a rhoi sicrwydd i bobl ynghylch sgil-ffeithiau posibl i annog pobl i'w derbyn.**
- I'r gwrthwyneb, mae diogelu eu hunain (64%) ac eraill (11%) ymhlith yr ysgogiadau mwyaf cyffredin sy'n annog defnyddwyr gwasanaeth i gael eu brechu. **Dylai adnoddau gwybodaeth gyfleu neges diogelu eich hun ac eraill i annog pobl i dderbyn brechiadau.**
- Mae gofalwyr di-dâl yn fwy tebygol na grwpiau defnyddwyr gwasanaeth eraill o ddweud bod diogelu eraill yn eu hysgogi i gael brechiad. **Dylai adnoddau gwybodaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl ganolbwyntio ar negeseuon sy'n pwysleisio diogelu eraill er mwyn annog pobl i dderbyn brechiadau/tynnu sylw at adnoddau gwybodaeth.**

Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd ICC

- Mae ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ICC yn gymharol uchel, gyda 41% yn dweud eu bod wedi gweld o leiaf un daflen wybodaeth/postiad ar y cyfryngau cymdeithasol. Serch hynny, mae ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ICC ymhlith y rhai 55+ oed yn is na'r cyfartaledd (28%). **Efallai y bydd angen ymchwil bellach gyda phreswylwyr 55+ oed i benderfynu ar y ffordd orau o gyfleu gwybodaeth am frechlynnau i'r grŵp hwn gan fod taflenni gwybodaeth a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn llai effeithiol wrth estyn allan at y rhai 55+ oed.**
- Yn debyg i ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ICC, mae ymwybyddiaeth o logo *Mae Brechu yn achub bywydau/Vaccination saves lives* ar 39% ymhlith defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd ICC yn gadarnhaol ar y cyfan ymhlith defnyddwyr gwasanaeth, gydag 88% yn dweud eu bod yn fodlon ar y cyfan ac mae cyfrannau tebyg yn sgorio swm (89%) ac eglurder (87%) yr wybodaeth, y cynllun/diwyg (85%), a pha mor berthnasol yw'r deunyddiau iddynt hwythau (86%), yn gadarnhaol. Mae mewnwelediadau o'r ymchwil ansoddol hefyd yn dangos bod deunyddiau gwybodaeth ICC yn cael eu hystyried yn gadarnhaol a'u gweld yn ddibynadwy ar y cyfan o ystyried cysylltiad ICC â'r GIG. Mae'r cyfweiliadau ansoddol a'r grwpiau ffocws yn rhoi rhagor o fewnwelediadau

ynghylch yr hyn y dylai deunyddiau gwybodaeth eu cynnwys wrth symud ymlaen.

- **Mae angen i'r deunyddiau fod yn fyr ac yn gryno.** Ystyrir y rhan fwyaf o daflenni gwybodaeth yn 'rhy eiriog'. Dylid adolygu deunyddiau gwybodaeth i sicrhau eu bod yn fyr ac yn gryno ac nad ydynt yn llethol er mwyn cynyddu ymgysylltiad â'r deunyddiau hyn.
- **Ystyrir codau QR a chyfeiriadau at ddolenni gwybodaeth bellach yn ddefnyddiol** ac fe'u hawgrymwyd fel ffordd o leihau maint y deunyddiau presennol heb golli gwybodaeth. Dylid parhau i ddefnyddio'r rhain.
- Gwelir delweddau, megis delweddau sy'n caniatáu i gynulleidfaoedd targed adnabod eu hunain fel y cyfryw neu ddiagramau sy'n esbonio symptomau neu glefydau, yn ddefnyddiol o ran gwneud adnoddau gwybodaeth yn hawdd eu deall, sy'n awgrymu y **dylid parhau i ddefnyddio'r elfennau gweledol hyn mewn deunyddiau gwybodaeth.**
- Pan fo adnoddau gwybodaeth yn targedu grwpiau penodol, **mae angen bod yn glir pam mae grwpiau'n cael eu targedu.** Roedd dryswch ynghylch pam y cafodd Moslemiaid eu targedu yn ystod Ramadan mewn cysylltiad â brechlyn COVID-19.
- **Ffeirir adnoddau lliwgar** oherwydd bod y rhain yn denu sylw pobl yn well. Dylai deunyddiau gwybodaeth yn y dyfodol ddefnyddio lliw i ddenu sylw.
- Mae pobl ifanc (16–24 oed) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn anfodlon â'r deunyddiau cyhoeddusrwydd ICC y dangoswyd iddynt. Dengys mewnwelediadau gan y grŵp ffocws ansoddol gyda phobl 16–24 oed fod y grŵp hwn yn canfod bod rhai deunyddiau cyhoeddusrwydd yn brin o wybodaeth am frechlynnau megis yr hyn y mae'r brechlyn yn diogelu rhagddo a pham y dylid ei gael. Roedd canfyddiad hefyd fod deunyddiau gwybodaeth gan ICC yn rhy hir, ac roedd rhai yn canfod rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir yn blentynnaidd. **Dylid adolygu deunyddiau gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc 16–24 oed i sicrhau eu bod yn gryno a'u bod yn cynnwys digon o wybodaeth am frechiadau. Efallai y bydd angen ymchwil pellach gyda phobl ifanc 16–24 oed i brofi derbynioldeb yr iaith a ddefnyddir mewn deunyddiau gwybodaeth ar gyfer y grŵp hwn.**
- Meddygfeydd a chanolfannau brechu yw'r lleoedd mwyaf cyffredin lle mae defnyddwyr gwasanaeth wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd ICC. Hefyd, teledu (71%), Facebook (62%), a WhatsApp (54%) yw'r sianeli a ddefnyddir fwyaf gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn gyffredinol (nid i gael gwybodaeth am frechlynnau yn unig), ac yna YouTube (47%) a'r radio (45%). **Dylai ICC ystyried defnyddio'r sianeli canlynol i gyfleu gwybodaeth am frechiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth: lleoliadau gofal iechyd, teledu, Facebook, WhatsApp, YouTube a'r radio.** Mae gwahaniaethau yn y defnydd o sianeli fesul is-grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth y dylid eu hystyried. I gael rhagor o wybodaeth am y sianeli a argymhellir fesul is-grŵp, cyfeirier at y dogfennau canfyddiadau cryno ar wahân fesul is-grŵp.

- Mae rhywfaint o alw (27%) am fformatau hygyrch ymhlith y rhai sydd ag anableddau. Hawdd eu Darllen a Phrint Bras yw'r fformatau hygyrch y gofynnir amdanynt fwyaf. **Dylai ICC sicrhau bod deunyddiau gwybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys Hawdd eu Darllen a Phrint Bras.**
- **Efallai y bydd angen ymchwil pellach i ddeall y galw am ddeunyddiau mewn ieithoedd tramor** gan mai dim ond lleiafrif bach o'r ymatebwyr sy'n siarad ieithoedd eraill a gymerodd ran yn yr ymchwil.

2.3 Darparwyr gwasanaeth

Sgyrsiau am frechiadau â defnyddwyr gwasanaeth

- Dywed y mwyafrif o'r darparwyr gwasanaeth (76%) eu bod wedi cychwyn sgysrsiau am frechiadau â'u defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf ac mae ychydig dros hanner y darparwyr gwasanaeth (56%) yn dweud bod eu defnyddwyr gwasanaeth wedi cychwyn sgysrsiau o'r fath. Dim ond un o bob deg (11%) o'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n dweud nad ydynt wedi cael unrhyw sgysrsiau o gwbl am frechu yn ystod y 12 mis diwethaf. COVID-19 a'r fflw yw'r brechlynnau y siaradwyd amdanynt fwyaf.
- O ran amllder sgysrsiau am frechiadau, mae'r mwyafrif (69%) o'r darparwyr gwasanaeth yn dweud bod y rhain yn digwydd unwaith yr wythnos neu'n amlach.
- Mae'r mwyafrif helaeth o'r darparwyr gwasanaeth (89%) yn dweud eu bod wedi cael sylwadau neu gwestiynau gan ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn pryderu am gael brechiadau yn ystod y 12 mis diwethaf, a COVID-19 a'r fflw yw'r imiwneiddiadau sy'n peri'r pryder mwyaf. Mae hyn yn pwysleisio **pa mor bwysig yw hi bod ICC yn gwneud adnoddau gwybodaeth o ansawdd ar gael i ddarparwyr gwasanaeth er mwyn cefnogi sgysrsiau gyda'u defnyddwyr gwasanaeth.**
- Yn benodol, mae darparwyr gwasanaeth sydd wedi cael sgysrsiau gyda defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn poeni am frechiadau yn dweud mai'r ffynonellau pryder mwyaf cyffredin yw sgil-efeithiau (93%) ac, i raddau llai, a yw brechlynnau wedi eu profi'n iawn (63%) a chynhwysion brechlynnau (50%). **Dylai ICC sicrhau bod adnoddau gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am gynhwysion brechlynnau a phrofion/diogelwch brechlynnau i gefnogi darparwyr gwasanaeth gyda'u sgysrsiau am frechiadau â defnyddwyr gwasanaeth.**

Cael gafael ar wybodaeth a chefnogi defnyddwyr gwasanaeth i wneud penderfyniadau

- Gwefan ICC (67%), gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (64%), taflenni gwybodaeth y GIG (59%) a gwefan y GIG (54%) yw'r ffynonellau gwybodaeth mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan ddarparwyr gwasanaeth ar gyfer canfod

mwyr am frechiadau neu gyfeirio defnyddwyr gwasanaeth. Hefyd, soniodd lleiafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ansoddol am Oxford Vaccine Knowledge fel gwefan ddefnyddiol i gyfeirio defnyddwyr ati o ystyried y cyfoeth o wybodaeth sydd ganddi am gynhwysion a diogelwch brechlynnau (y mae'r cwbl wedi ei ategu gan ymchwil), ynghyd ag adroddiadau personol o gael brechiad ac o wneud penderfyniadau. Ystyrir y wefan hon yn ddefnyddiol hefyd oherwydd ei bod yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r GIG, gan fod y rhai sy'n amheus ynghylch brechlynnau yn fwy tebygol o ddrwgdybio'r cyrff hyn. **Dylai ICC ystyried defnyddio dolenni at brosiect Oxford Vaccine Knowledge i gyfeirio darllenwyr i ganfod mwy er mwyn apelio at y rhai sy'n amheus ynghylch brechiadau.**

- Mae mewnwelediadau o'r cyfweiliadau ansoddol gyda darparwyr gwasanaeth yn datgelu bod rhai darparwyr gwasanaeth wedi cael problemau yn ymwneud â llywio wrth fynd at wefan ICC ers iddi gael ei diweddarau ddiwethaf, a bod rhai ohonynt yn cael trafferth dod o hyd i gwestiynau cyffredin a thafleuni gwybodaeth. O ystyried y problemau hyn, mae rhai darparwyr gwasanaeth wedi dechrau defnyddio gwefannau eraill i ddarparu gwybodaeth am frechiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, megis gwefannau iechyd cyhoeddus Lloegr neu'r Alban. **Dylid gwneud addasiadau i wefan ICC fel ei bod yn haws ei llywio a, chan hynny, yn haws dod o hyd i wybodaeth a'i rhannu.**
- Mae'r mwyafrif llethol (89%) o ddarparwyr gwasanaeth yn dweud eu bod wedi cael sgysiau gyda defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn betrusgar ynghylch a ddylent gael brechiad, gyda'r mwyafrif o'r sgysiau hyn yn canolbwyntio ar COVID-19 ac, i raddau llai, y brechlyn fflw.
- Er bod y mwyafrif (82%) o'r darparwyr gwasanaeth sydd wedi cael sgysiau gyda defnyddwyr gwasanaeth petrusgar yn teimlo bod ganddynt yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i siarad â'u defnyddwyr gwasanaeth, roedd ychydig o dan ddau o bob 10 (18%) yn teimlo nad oedd ganddynt yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt.
- Er bod y mwyafrif o'r darparwyr gwasanaeth yn teimlo'n hyderus yn siarad â defnyddwyr gwasanaeth am frechiadau a sut mae brechiadau'n gweithio, cyfraneddau is sy'n teimlo'n hyderus yn siarad â defnyddwyr gwasanaeth neu ateb cwestiynau am sut mae brechlynnau'n cael eu profi (53%) ac wrth siarad â defnyddwyr gwasanaeth neu ateb cwestiynau am gynhwysion brechlynnau (50%). Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu **efallai bod angen rhagor o wybodaeth am brofion a chynhwysion brechlynnau ar ddarparwyr gwasanaeth i gynyddu eu hyder pan maent yn ymdrin â chwestiynau neu sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth.**
- Serch hynny, gall canlyniad sgysiau rhwng darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth sy'n betrusgar gael canlyniadau cadarnhaol ar y nifer sy'n derbyn brechlynnau, a dywedodd 55% o'r darparwyr gwasanaeth a gafodd sgysiau bod eu defnyddwyr gwasanaeth wedi penderfynu imiweiddio yn dilyn y sgysiau.

Ymwybyddiaeth ac agweddau tuag at y brechiadau sydd ar gael i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

- Pan ofynnwyd iddynt pa frechiadau maent yn credu sy'n cael eu cynnig i staff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, y brechlynnau a gydnabyddir fwyaf eang fel y rhai sydd ar gael gan ddarparwyr gwasanaeth yw COVID-19 (97%) a'r fflw (93%). Dilynir hyn gan Hepatitis B (76%) a MMR (40%). Roedd llai na thri o bob 10 darparwr gwasanaeth yn ymwybodol o frechlynnau eraill a gynigir i staff iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn awgrymu **efallai bod angen rhagor o wybodaeth am y brechlynnau a gynigir i staff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i gynyddu'r ymwybyddiaeth yn hyn o beth.**
- Mae mewnwelediadau ansoddol yn dangos bod prif ysgogiadau darparwyr gwasanaeth dros gael brechiad yn cynnwys diogelu eu hunain ac eraill yn ogystal ag atal salwch. **Efallai y bydd angen ymchwil pellach i archwilio ysgogiadau a rhwystrau darparwyr gwasanaeth rhag derbyn brechlynnau eu hunain (yn hytrach na safbwyntiau ar gymhellion a rhwystrau ymhlith eu defnyddwyr gwasanaeth).**

Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd ICC

- Mae ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ICC yn uchel ymhlith darparwyr gwasanaeth, ac mae 89% ohonynt yn dweud eu bod wedi gweld cyhoeddusrwydd ICC cyn cymryd rhan yn yr arolwg. Mae ymwybyddiaeth o logo *Mae Brechu yn achub bywydau/Vaccination saves lives* hefyd yn uchel ymhlith darparwyr gwasanaeth (86%).
- Canolfannau brechu a gweithleoedd yw'r lleoedd mwyaf cyffredin lle mae darparwyr gwasanaeth wedi dod ar draws cyhoeddusrwydd ICC. **Dylai canolfannau brechu a gweithleoedd barhau i gael eu defnyddio wrth symud ymlaen i roi cyhoeddusrwydd i adnoddau gwybodaeth ymhlith darparwyr gwasanaeth er mwyn cynnal y lefelau uchel presennol o ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ICC.**
- Yn galonogol, fel y gwelwyd ymhlith defnyddwyr gwasanaeth, mae gan ddarparwyr gwasanaeth safbwyntiau cadarnhaol ar gyhoeddusrwydd ICC hefyd, ac mae 84% ohonynt yn fodlon ar y cyfan, gyda chyfrannau tebyg yn rhoi sgôr cadarnhaol ar gyfer faint o wybodaeth (90%), pa mor glir yw'r wybodaeth (90%) a'r cynllun/diwyg (89%).
- Serch hynny, nodwyd rhai gwelliannau i gyhoeddusrwydd ICC drwy'r cyfweiliadau ansoddol â darparwyr gwasanaeth.
- Ystyrir bod gan rai deunyddiau ormod o destun, a bod darparwyr gwasanaeth yn ffafrio fersiynau byrrach o ddeunyddiau gydag arwyddion at ragor o wybodaeth os dymunir hynny. **Dylai ICC ystyried byrhau taflenni gwybodaeth pan fo hynny'n bosibl.**

- Ffafiwyd deunyddiau lle gall amrywiaeth fawr o'r grwpiau cynulleidfa uniaethu â nhw. Er enghraifft, mae darparwyr gwasanaeth o'r farn ei bod yn bwysig i ddeunyddiau apelio at amrywiaeth eang o ethnigrwydd yn ogystal â'r rhai sydd â gofynion dietegol. **Dylai ICC sicrhau bod delweddau a thestun yn cael eu defnyddio mewn adnoddau gwybodaeth i apelio at ystod eang o grwpiau poblogaeth i'w hannog i ymgysylltu ag adnoddau gwybodaeth.**
- Hoffai'r darparwyr gwasanaeth a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ansoddol i adnoddau gwybodaeth am frechlynnau fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys digidol ac ar bapur, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw grŵp poblogaeth yn cael ei allgáu'n anfwriadol neu'n methu â chael gafael ar wybodaeth. Mae darparwyr gwasanaeth yn ystyried fideos yn fformat defnyddiol ar gyfer gwneud gwybodaeth hawdd ei deall ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gallu darllen yn gallu cael gafael ar wybodaeth. **Dylai ICC sicrhau bod adnoddau gwybodaeth ar gael i ddarparwyr gwasanaeth yn ddigidol ac ar bapur, gan gynnwys yn ysgrifenedig ac ar ffurf sain, er mwyn sicrhau y gall darparwyr gwasanaeth ddarparu ar gyfer anghenion ystod eang o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth.**
- Hoffai dros hanner y darparwyr gwasanaeth weld adnoddau gwybodaeth am frechiadau ar gael mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg fel y gallant rannu'r rhain â'u defnyddwyr gwasanaeth, ac Wcreineg a Phwyleg yw'r ieithoedd a ddyfynnwyd amlaf yr hoffai darparwyr gwasanaeth weld adnoddau ar gael ynddynt. **Dylai ICC sicrhau bod adnoddau gwybodaeth am frechu ar gael mewn ieithoedd tramor, yn enwedig Pwyleg ac Wcreineg.**
- Byddai'r mwyafrif (80%) o'r darparwyr gwasanaeth hefyd yn hoffi gweld adnoddau gwybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch, yn fwyaf nodedig Hawdd eu Deall, Print Bras a Braille. **Dylai ICC sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn gallu cael gafael ar adnoddau gwybodaeth mewn fformatau hygyrch fel y gallant rannu'r rhain â'u defnyddwyr gwasanaeth.**

3. Defnyddwyr Gwasanaeth

3.1 Ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd am iechyd

3.1.1. Dwyn i gof wybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd

Cyn i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu holi am eu canfyddiadau a'u gwybodaeth am y rhaglen imiwneiddio yng Nghymru, gofynnwyd iddynt am eu hymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ynghylch brechiadau yn gyffredinol. Mae'r adran hon yn edrych ar ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd am frechiadau mewn cyd-destun iechyd ehangach.


3.1.2 Dwyn i gof wybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd

Mae Ffigur 1 isod yn dangos y mathau o wybodaeth am iechyd pobl y mae defnyddwyr gwasanaeth wedi dod ar eu traws yn ystod y 12 mis diwethaf.

Yn gyffredinol, mae wyth o bob 10 (86%) defnyddiwr gwasanaeth yn dweud eu bod wedi gweld, clywed neu ddarllen gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd pobl yn ystod y 12 mis diwethaf. Imiwneiddiadau (65%) yw'r pwnc mwyaf cyffredin y mae defnyddwyr gwasanaeth wedi clywed amdano, ac yna heintiau/feirysau (60%). Ar y cyfan, roedd tua wyth o bob 10 defnyddiwr gwasanaeth (86%) wedi clywed neu gael sgysiau am o leiaf un pwnc sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae'r rhai sy'n rhieni i blant o dan 18 oed yn fwy tebygol o fod wedi gweld neu glywed rhywbeth am iechyd pobl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (92%) ac mae ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd (74%).

Ffigur 1: Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi gweld, darllen neu glywed unrhyw beth am y pynciau canlynol ynglŷn ag iechyd pobl?




Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)
A1

3.1.3 Dwyn i gof gyhoeddusrwydd mewn cysylltiad â brechiadau

Yna gofynnwyd yn benodol i ddefnyddwyr gwasanaeth a oeddent wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am frechiadau i bobl yn ystod y 12 mis diwethaf (gweler Ffigur 2). Dywedodd y mwyafrif helaeth (89%) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am frechiadau, a dim ond un o bob 10 (11%) oedd heb wneud hynny.

Mae'r rhai y mae'r Gymraeg yn brif iaith iddynt yn llawer llai tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth am frechiadau (77%) ac mae'r gwrthwyneb yn wir am rieni plant o dan 18 oed (94%), y rhai a ddosberthir yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol (94%) ac ymatebwyr crefyddol (92%).


Ffigur 2: Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi gweld, darllen neu glywed unrhyw beth am frechiadau/imiwneiddiadau i bobl?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)
A2

Yna gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn cofio dod ar draws cyhoeddusrwydd am frechu beth oedd cynnwys yr wybodaeth yr oeddent wedi ei gweld/clywed (gweler Ffigur 3**Error! Reference source not found.**).

O ystyried bod gwaith maes ar gyfer yr arolwg hwn wedi digwydd yn ystod hydref/gaeaf 2022/23 pan oedd brechlynnau atgyfnerthu COVID-19 a'r fflw yn cael eu hyrwyddo ar gyfer y rhai a oedd yn gymwys, efallai nad yw'n syndod mai'r rhain yw'r brechlynnau y mae defnyddwyr gwasanaeth wedi clywed amdanynt fwyaf. Dywedodd wyth o bob 10 (84%) o'r rhai a oedd wedi dod ar draws gwybodaeth ei bod yn ymwneud â COVID-19, a dywedodd chwech o bob 10 (62%) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y brechlyn fflw. Dim ond un o bob 10 neu lai oedd wedi dod ar draws gwybodaeth am frechlynnau eraill.

Ffigur 3: Pa frechiad oedd y sgwrs amdano?


Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi clywed am frechiadau (522)
A3

Yna gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi clywed neu weld rhywbeth am frechu yn ystod y 12 mis diwethaf beth roeddent yn ei gofio fwyaf am yr hyn a welsant neu a glywsant. Gofynnwyd hyn fel cwestiwn agored. Yna codiwyd yr ymatebion yn themâu, a dangosir y rhain yn Ffigur 4.

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dywedodd un o bob pedwar (27%) eu bod wedi dod ar draws nodiadau atgoffa i'w hannog i gael y brechlyn fflw, a dywedodd un o bob 10 (12%) eu bod wedi dod ar draws nodiadau atgoffa i gael brechlyn/brechiad atgyfnerthu COVID-19 (12%). Roedd cyfrannau tebyg wedi dod ar draws mathau eraill o gynnwys mewn cysylltiad â brechlynnau fflw (13%) a brechiadau atgyfnerthu COVID-19 (11%). Soniwyd am weddill y themâu gan lai nag un o bob 10 ymatebydd, ac ni allai oddeutu un o bob tri (31%) gofio beth oedd cynnwys yr wybodaeth yr oeddent wedi ei gweld neu ei chlywed.

Ffigur 4: A beth ydych chi'n ei gofio fwyaf am yr hyn a welsoch neu'r hyn a glywsoch? Beth oedd yn ei ddweud/beth wnaethoch chi ei ddysgu amdano?




Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi clywed am frechiadau (522)
A4

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oedd yr wybodaeth yr oeddent wedi ei gweld neu ei chlywed o blaid neu yn erbyn brechiadau. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 5. Yn galonogol, dywedodd wyth o bob 10 (80%) fod yr wybodaeth y daethant ar ei thraws o blaid brechu. Dim ond pedwar y cant oedd wedi dod ar draws gwybodaeth a oedd yn gyfan gwbl yn erbyn brechu. Dywedodd saith y cant eu bod wedi gweld cymysgedd o wybodaeth o blaid ac yn erbyn brechu ac roedd cyfran debyg wedi gweld gwybodaeth nad oedd o blaid nac yn erbyn imiwneiddio. Roedd y gweddill (2%) yn ansicr neu'n methu â chofio.

Mae ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi dod ar draws gwybodaeth yn erbyn brechu (16%) fel y mae ymatebwyr iau h.y., y rhai rhwng 16 a 24 oed (10%).

Ffigur 5: Yn gyffredinol, a oedd yr wybodaeth a welsoch chi ... ?




Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi clywed am frechiadau (522)
A5

Yna gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am frechiadau yn ystod y 12 mis diwethaf ble y daethant ar draws yr wybodaeth hon (Ffigur 6).

Teledu (38%), gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (32%), cyfryngau cymdeithasol (22%) a gwefan y GIG (18%) yw'r ffynonellau gwybodaeth mwyaf cyffredin.

Gan edrych ar ffynonellau gwybodaeth cyffredinol y canlyniadau hyn, cafodd defnyddwyr gwasanaeth wybodaeth am frechiadau o gyfryngau traddodiadol gan amlaf (50%), gan gynnwys teledu, radio a phapurau newydd, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol/lleoliadau gofal iechyd (45%). Dilynrir hyn gan ffynonellau ar-lein, a soniodd 28% am lwyfannau a gwefannau cyfryngau cymdeithasol yn y drefn honno. Roedd un o bob pump (21%) wedi dod ar draws poster a thafleuni gwybodaeth am frechiadau.

Ffigur 6: A ble y gwnaethoch chi weld neu glywed hyn?



Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi clywed am frechiadau (522)

A6

*Ni ddangosir codau islaw 10% er mwyn hwyluso darllen

O edrych ar y teimlad ar yr wybodaeth y deuir ar ei thraws fesul ffynhonnell, mae gwybodaeth a dderbynnir trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn llai tebygol na'r cyfartaledd o gyfleu negeseuon o blaid brechu ac yn fwy tebygol o gyfleu cymysgedd o negeseuon o blaid ac yn erbyn brechu (Tabl 3). I'r gwrthwyneb, mae gwybodaeth a geir gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn fwy tebygol o gyfleu negeseuon o blaid brechu (49%) ac yn llai tebygol o gyfleu gwybodaeth yn ei erbyn (26%). Hefyd, mae gwybodaeth a welir neu a glywir ar gyfryngau traddodiadol (teledu, papurau newydd, radio) yn fwy tebygol o gael ei hystyried o blaid brechu (54%).

Tabl 3: Yn gyffredinol, a oedd yr wybodaeth a welsoch/clywsoch ... fesul ffynhonnell (Defnyddwyr Gwasanaeth)

	CYFANSWM	O blaid brechu	Yn erbyn brechu	Nid yw o blaid nac yn erbyn	Yn gymysgedd o wybodaeth o blaid ac yn erbyn brechu
Crynodeb: Cyfryngau traddodiadol	50%	<u>54%</u>	38%	35%	45%
Crynodeb: Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu leoliad gofal iechyd	45%	<u>49%</u>	19%	35%	<u>26%</u>
Crynodeb: Cyfryngau cymdeithasol/llwyfannau	28%	<u>24%</u>	52%	41%	<u>45%</u>
Crynodeb: Gwefannau	28%	30%	14%	22%	32%
Crynodeb: Taflenni gwybodaeth/posteri	21%	21%	10%	14%	26%

Mae'r ffigurau a danlinellir yn dangos gwahaniaethau ystadegol sylweddol o'u cymharu â'r cyfanswm ar lefel hyder o 95%

Dengys cyfweiliadau ansoddol a grwpiau ffocws mai'r math mwyaf cyffredin o wybodaeth y mae defnyddwyr gwasanaeth wedi dod ar ei draws yn ddiweddar am frechiadau yw taflenni gwybodaeth a roddwyd iddynt gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan oeddent yn cael eu brechlynnau a'u brechiadau atgyfnerthu COVID-19. Roedd lleiafrif hefyd yn cofio dod ar draws gwybodaeth am frechlynnau fflw mewn fferyllfeydd a meddygfeydd.

“Rwy’n meddwl fy mod i wedi cael taflen wybodaeth am COVID”. SEG DE/Derbynnydd budd-daliadau

“Rwy’n cofio cerdded allan gyda chwe darn o bapur [ar ôl cael brechlyn COVID-19]. Dw i ddim yn credu bod neb yn eu darllen nhw mewn gwirionedd. Ar ei ôl oedd hynny, dw i ddim cofio gwybod llawer amdano o flaen llaw”. 16–24 oed

“Dywedwyd ychydig wrthyf fi am y brechlyn fflw yn y fferyllfa, ond dim llawer”. Person o gefndir ethnig lleiafrifol

Fodd bynnag, nododd defnyddwyr gwasanaeth yn gyffredin eu bod wedi dod ar draws camwybodaeth. Cynhwysir rhagor o wybodaeth am gamwybodaeth yn yr is-adran ganlynol.


3.1.4 Dwyn i gof wybodaeth sy'n peri pryder mewn cysylltiad â brechiadau

Yna gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth a oeddent wedi dod ar draws unrhyw wybodaeth a fyddai'n eu gwneud yn bryderus neu'n gwneud iddynt boeni am gael brechiad (gweler Ffigur 7).

Nid oedd y mwyafrif (73%) ohonynt wedi gweld na chlywed dim byd a fyddai'n eu gwneud yn bryderus neu'n bryderus am gael brechiad. Fodd bynnag, roedd un o bob pump (21%) wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n peri pryder.

Mae ymatebwyr iau 16–24 oed yn fwy tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth a fyddai'n gwneud iddynt boeni am gael brechlyn (35%), fel y mae rhieni plant o dan 18 oed (35%), y rhai sy'n derbyn budd-daliadau neu Gredyd Cynhwysol (36%), ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn drawsryweddol (67%), a'r rhai sydd wedi eu haddysgu ar lefel gradd neu uwch (27%).

Ffigur 7: A oes unrhyw beth yr ydych wedi dod ar ei draws a fyddai'n peri i chi bryderu neu boeni am gael brechiad?




Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)
A7

Gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi gweld neu glywed gwybodaeth sy'n peri pryder am frechu pa frechlyn(nau) y gwnaeth yr wybodaeth hon iddynt bryderu amdanynt (Ffigur 8).

Dywedodd y mwyafrif a oedd wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n peri pryder ei bod yn ymwneud â COVID-19 (72%). Soniwyd am weddill y brechlynnau i raddau sylweddol is, gyda 14% yn cyfeirio at y ffliw ac 11% yn dyfynnu brechlyn chwech mewn un/DTaP/IPV/Hib/HepB (difftheria, hepatitis B, Haemophilus influenzae, polio,

tetanws, y pas (pertwsis)). Soniwyd am frechlynnau eraill gan lai nag un o bob 10 o'r rhai a oedd wedi gweld gwybodaeth a oedd yn peri pryder.

Ffigur 8: Pa frechiad(au) y gwnaeth i chi deimlo'n bryderus amdanynt?




Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi gweld gwybodaeth sy'n peri pryder (125)
A8

Yna gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi gweld neu glywed gwybodaeth sy'n peri pryder am y sianeli lle daethant ar draws gwybodaeth o'r fath (gweler Ffigur 9).

Y cyfryngau cymdeithasol oedd y brif ffynhonnell lle'r oedd ymatebwyr wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n peri pryder (31%), ac yna gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (22%), a theulu/ffrindiau/cydweithwyr (22%).

Ffigur 9: A ble wnaethoch chi weld neu glywed yr wybodaeth hon a fyddai'n gwneud i chi bryderu ynglŷn â chael brechiad?



Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi gweld gwybodaeth sy'n peri pryder (125)
A9

*Ni ddangosir codau islaw 10% er mwyn hwyluso darllen

Mae grwpiau ffocws ansoddol a chyfweliadau yn cadarnhau ei bod yn gyffredin i wahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth fod wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n peri pryder, ar gyfryngau cymdeithasol neu ar lafar yn bennaf. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon yn ymwneud â brechlynnau COVID-19, ac i raddau llai, y brechlyn MMR.

“Rhywun yn ysgol fy merch yn dweud ei fod yn teimlo'n sâl ar ôl [cael] brechlyn COVID”. Gofalwr di-dâl

“Ynglŷn â'r un COVID, ei fod yn achosi clotiau gwaed a dynion i fod yn anffrwythlon...” Oedolyn ag anableddau

“Damcaniaethau cynllwyn [...] er enghraifft nad yw COVID yn bodoli, y mewnosodir sglodyn yn lle'r brechlyn fel y gall y Llywodraeth ein holrhain, fod y brechlyn yn gwneud rhai hiliau yn anffrwythlon [...]”. 25–54 oed

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

“Rwyf wedi gweld llawer ar TikTok yn ddiweddar. Oddi wrth Americanwyr y mae ef rwy’n credu, am y cysylltiad rhwng awtistiaeth ac MMR”. Menyw feichiog

Serch hynny, mae’n werth nodi bod y mwyafrif o’r defnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol a chyfweliadau wedi gwrthod yr wybodaeth hon, gan ei labelu fel safbwyntiau ‘cynllwyn’ neu anghytbwys, a dweud na fyddai’n gwneud iddynt boeni am gael brechiad eu hunain na brechu eu plentyn.

“Mae’n fy ngwneud i ychydig yn fwy gwyliadwrus, ond rwy’n dal i dueddu i fwrw ymlaen â’r brechlynnau beth bynnag gan fy mod i’n gwybod bod pawb yn ymateb i frechlynnau yn wahanol”. Aelod o’r gymuned LGBTQ+

“Ond fyddai hi ddim yn fy atal i rhag brechu fy mhlentyn”. Menyw feichiog

“Doeddwn i ddim yn poeni o gwbl”. 25–54 oed

“Os hynny oedd ef, mae’n debyg mai un siawns mewn miliwn yw ef, ond dw i ddim yn meddwl ei fod ef mewn gwirionedd. Rwy’n meddwl mai cyddigwyddiad yw ef os yw rhywun yn sâl iawn ar ôl cael brechlyn, felly dw i ddim yn cymryd unrhyw sylw yn bersonol”. Gofalwr di-dâl

Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod yr wybodaeth hon sy’n peri pryder wedi effeithio ar rai, a dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn fwy ‘amheugar’ ers pandemig COVID, a’u bod yn cwestiynu brechiadau yn fwy ers hynny. Roedd y thema hon yn fwy amlwg ymhlith menywod beichiog ac yn llai felly ar gyfer grwpiau eraill.

“Rwy’n credu fy mod i ychydig yn fwy amheus ers COVID nad yw’r holl wybodaeth gennym ni a dydych chi ddim yn gwybod beth nad ydych chi’n ei wybod [...]”. Menyw feichiog

“[...] Ers COVID, rwy’n fwy amheus amdany’n nhw [brechlynnau], felly rwy’n eu cwestiynu nhw’n llawer mwy nag o’r blaen [...]”. Menyw feichiog

Awgrymodd defnyddiwr gwasanaeth a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol hefyd y bydd yn bwysig i ICC a chyrff iechyd cyhoeddus eraill addysgu pobl ynghylch sut i fod yn feirniadol o’r wybodaeth y maent yn dod ar ei thraws er mwyn mynd i’r afael â chamwybodaeth am frechlynnau.

“Dw i ddim yn gwybod beth yw capasiti Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond mewn gwirionedd byddai dysgu pobl sut i fod yn feirniadol o’r wybodaeth y maen nhw’n ei chanfod yn fuddiol iawn i wasanaethau iechyd”. Oedolion sydd ag anableddau

3.2 Ymwybyddiaeth wedi’i hysgogi o’r holl frechiadau sydd ar gael


3.2.1 Cyflwyniad

Mae’r adran hon yn edrych ar ymwybyddiaeth o’r holl frechiadau a gynigir i bobl yng Nghymru ymhlith defnyddwyr gwasanaeth.

3.2.2 Ymwybyddiaeth o'r brechiadau sydd ar gael

Mae Ffigur 10 yn dangos ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth o'r brechiadau sydd ar gael i bobl yng Nghymru. Brechlyn COVID-19 yw'r brechiad y mae defnyddwyr gwasanaeth fwyaf ymwybodol ohono (84%), a ddilynir gan frechlyn y fflw (76%), brechlyn MMR (63%), y brechiad atgyfnerthu pedwar mewn un cyn ysgol (53%) a'r brechiad atgyfnerthu ar gyfer pobl sydd yn eu harddegau (tetanus, difftheria a polio) (53%). Llai na hanner yr ymatebwyr sy'n ymwybodol o frechlynnau eraill, a MenACWY (22%) a rotafirws (16%) yw'r brechlynnau y mae defnyddwyr gwasanaeth lleiaf ymwybodol ohonynt.

Ffigur 10: Pa frechlynnau ydych chi'n meddwl sydd ar gael i bobl yng Nghymru ar hyn o bryd?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)

B1

Ni ddangosir codau islaw 10% er mwyn hwyluso darllen

Mae'r grwpiau defnyddwyr gwasanaeth canlynol yn llai tebygol o fod yn ymwybodol am nifer o frechiadau y rhaglen frechu genedlaethol yng Nghymru: pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl 55+ oed, pobl LGBTQ+, a'r rhai sydd rhwng 16–24 oed a myfyrwyr llawn amser.

3.3 Agweddau tuag at frechiadau

3.3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio'r agweddau sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth tuag at frechu yn gyffredinol, gan gynnwys eu canfyddiadau o ddifrifoldeb y clefydau y mae brechlynnau'n amddiffyn yn eu herbyn, diogelwch canfyddedig brechiadau, ac ymddiriedaeth mewn brechiadau.


3.3.2 Difrifoldeb canfyddedig clefydau

Gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth ystyried pa mor ddifrifol yr oeddent yn meddwl y byddai i'w hiechyd pe baent yn dal unrhyw un o'r clefydau y mae'r rhaglen frechu yng Nghymru yn diogelu rhagddynt.

Ystyriodd o leiaf 45% o'r ymatebwyr bod yr holl glefydau a ddangosir yn Ffigur 11 yn ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol, a septisemia (77%) a'r tri chanser a restrir (canser y pen a chanser y gwddf, 79%; canser serfigol, 75%; a chanser yr organau cenhedlu, 72%) a gafodd y sgoriau 'difrifol iawn' uchaf. Dilyniir y rhain gan dwbercwlosis (roedd 60% o'r farn ei fod yn ddifrifol iawn), pneumonia (56%) a polio (54%). I'r gwrthwyneb, y clefydau a ystyriwyd lleiaf difrifol yw'r fflw (16% a ystyriodd y fflw yn ddifrifol iawn), defaid gwenerol (14%) a rotafirws (18%). O ran yr olaf, fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y sgoriau difrifol isel ar gyfer rotafirws oherwydd cyfran sylweddol (41%) a ddywedodd nad oeddent yn gwybod neu nad oeddent wedi clywed am rotafirws fel clefyd, yn hytrach na chyfran uchel o ymatebwyr a ddywedodd nad yw rotafirws yn glefyd difrifol (dim ond 14% a nododd nad yw'r clefyd hwn yn ddifrifol, o'u cymharu â 40% a ddywedodd hynny pan ofynnwyd iddynt am y fflw a defaid gwenerol yn y drefn honno). Mae'r gyfran a ddywedodd nad ydynt yn gwybod/wedi clywed am rotafirws yn llawer uwch na'r hyn ar gyfer gweddill y clefydau.

Mae rhai gwahaniaethau yn y canfyddiadau o ddifrifoldeb clefydau ar draws gwahanol grwpiau, ac mae'r ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl LGBTQ+ a'r rhai sydd wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n peri pryder yn fwy tebygol o ddweud nad yw mwyafrif y clefydau a restrir yn ddifrifol.

Ffigur 11: Pa mor ddifrifol ydych chi'n meddwl y gallai fod i'ch iechyd pe baech yn cael un o'r clefydau hyn?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)

B2

*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

3.3.3 Safbwyntiau ar ddiogelwch imiwneiddiadau


Yn dilyn difrifoldeb canfyddedig clefydau, gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth am eu safbwyntiau mewn cysylltiad â diogelwch imiwneiddiadau (Ffigur 12).

Cytunodd o leiaf saith o bob 10 defnyddiwr gwasanaeth bod y rhan fwyaf o'r brechlynnau yn ddiogel iawn neu mai dim ond risg fach yr oeddent yn ei pheri: Dywedodd 83% ohonynt felly wrth gael eu holi am y brechlyn fflw, 81% am frechiadau teithio, ac 80% am y brechlyn MMR. I'r gwrthwyneb, ystyrir mai brechlyn

COVID-19 yw'r brechlyn lleiaf diogel, a dywedodd 17% ei fod yn peri risg canolig i uchel.

Mae'r grwpiau defnyddwyr gwasanaeth canlynol yn fwy tebygol o ddweud bod y mwyafrif o'r brechlynnau a restrir isod yn peri risg canolig i uchel: rhieni plant o dan 18 oed, ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn drawsryweddol.

Ffigur 12: Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo'n bersonol y mae'r brechlynnau hyn?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)

B3

*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gofynnwyd wedyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a ydynt yn credu bod brechlynnau sy'n waeth i bobl na'r clefydau gwirioneddol y maent yn eu hamddiffyn yn eu herbyn (Ffigur 13).

Yn galonogol, dywedodd y mwyafrif o'r defnyddwyr gwasanaeth (73%) fod pob brechiad yn peri risg is o'i chymharu â'r clefydau y maent yn eu hamddiffyn yn eu herbyn. Doedd 8% ddim yn gwybod ac mae'r gweddill (19%) yn credu bod o leiaf un brechlyn yn waeth iddynt na'r clefydau y maent yn eu hamddiffyn yn eu herbyn.


Brechlyn COVID-19 yw'r imiwneiddiad sydd fwyaf tebygol o gael ei ystyried yn fwy peryglus na'r clefyd ei hun, a nododd un o bob 10 (10%) hyn. Dywedodd llai na phum y cant fod brechlynnau eraill yn fwy peryglus na'r clefydau y maent yn eu hamddiffyn yn eu herbyn, a dim ond tri y cant a ddywedodd fod pob brechlyn yn peri risg uwch iddynt yn gyffredinol na'r clefydau y maent yn eu hamddiffyn yn eu herbyn.

Mae'r grwpiau defnyddwyr gwasanaeth canlynol yn llai tebygol o ddweud bod pob brechiad yn risg is iddynt na'r clefydau y maent yn eu hamddiffyn yn eu herbyn:

- Ymatebwyr sy'n dweud bod ganddynt anabledd (66%),
- rhieni plant o dan 18 oed (66%),
- y rhai sy'n derbyn budd-daliadau neu Gredyd Cynhwysol (64%),
- ymatebwyr iau (16–24 oed), (62%),
- ymatebwyr sydd â chyflyrau iechyd meddwl (59%),
- ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn ddeurywiol (48%),
- ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn drawsryweddol (35%),

O'r herwydd, dylai adnoddau gwybodaeth ar gyfer y grwpiau a nodir uchod ganolbwyntio ar egluro pam mae brechiadau'n ddiogel er mwyn annog pobl i'w derbyn arnynt.

Ffigur 13: Ydych chi'n meddwl bod unrhyw frechlynnau sy'n waeth i chi na'r salwch/clefyd ei hun? Os felly, pa rai?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)
B3


3.3.4 Canfyddiadau o frechiadau ac ymddiriedaeth ynddynt

Er mwyn archwilio ymhellach ganfyddiadau defnyddwyr gwasanaeth o frechiadau, dangoswyd rhestr o ddatganiadau a oedd wedi eu geirio'n gadarnhaol ac yn negyddol i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno â phob un. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 14.

O ran y datganiadau a oedd wedi eu geirio'n gadarnhaol, cytunodd oddeutu wyth o bob 10 â'r datganiadau hyn ac roedd llai nag un o bob 10 yn anghytuno. Roedd 86% yn cytuno bod brechlynnau'n gweithio, 84% yn cytuno bod brechlynnau'n ddiogel ac mae 83% yn ymddiried mewn brechlynnau. Cytunodd cyfrannau tebyg mai cael eich brechu yw'r peth iawn i'w wneud er lles y gymdeithas (82%) ac iddynt eu hunain (81%). Mae 81% yn credu ei bod yn arferol i bobl eu hoedran gael eu brechu a chytunodd 79% fod brechiadau yn cael eu profi'n iawn.

O edrych ar y datganiadau a oedd wedi eu geirio'n negyddol, mae'r safbwyntiau yn cynnwys mwy o arlliwiau, ac mae'r sgoriau cytuno ac anghytuno yn debyg neu mae'r sgoriau cytuno yn uwch na'r sgoriau anghytuno. Er bod 31% yn anghytuno eu bod yn poeni am sgil-ffeithiau brechu, roedd 46% yn cytuno â'r datganiad hwn. Hefyd, anghytunodd 39% eu bod yn poeni am gynhwysion brechlynnau, ond roedd 31% yn cytuno â hyn. Mae hyn yn awgrymu bod rhai pryderon ymhlith defnyddwyr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r sgil-ffeithiau posibl a chynhwysion brechlynnau.

Ffigur 14: Yn awr, dangosir cyfres o ddatganiadau i chi am bethau y mae pobl eraill wedi eu dweud am frechiadau. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)

E1

*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

Mae'r grwpiau canlynol yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn poeni am sgil-ffeithiau brechiadau: Rhieni (49%), ymatebwyr 16–24 oed (48%), y rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (47%), ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn drawsryweddol (47%), y rhai yn y cwintel mwyaf diffreintiedig (44%), a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau neu Gredyd Cynhwysol (42%).

Yn ogystal â hynny, mae ymatebwyr 16–24 oed (54%) ac ymatebwyr benywaidd (51%) yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn pryderu am gynhwysion brechlynnau.

Cafodd y themâu a nodwyd yn yr arolwg meintiol eu dilysu gan y cyfweiliadau ansoddol a'r grwpiau ffocws, a nododd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn elfen ansoddol yr ymchwil hon eu bod yn ymddiried mewn brechiadau oherwydd bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn eu hargymell, a

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

dywedodd rhai fod ganddynt rai pryderon am sgil-ffeithiau brechlyn COVID-19 oherwydd ei fod yn newydd.

“Mae gweithwyr meddygol proffesiynol yn gwybod beth maen nhw’n ei wneud ac rwy’n ymddiried yn y brechlynnau”. Gofalwr di-dâl

“A dweud y gwir, gwnaethom ni [fy mhartner a mi] ymchwilio i’r [brechlyn] MMR pan gawson ni ein plentyn cyntaf gan nad oeddem yn siŵr amdano fe. [...] Fe gawson ni fe, rydym ni’n ymddiried yn y nyrsys [a’r] meddyg teulu...”. Person y mae ei brif iaith yn iaith heblaw Gymraeg neu Saesneg

“[...] Gyda’r un COVID o bosibl, fe wnes i ddarllen mwy am hwnnw oherwydd ei fod yn un newydd. Fel arall, gydag unrhyw frechlynnau eraill sydd wedi bod o gwmpas ers tro rwy’n eu cael nhw’n syth, dw i ddim yn eu cwestiynu nhw”. Menyw feichiog

“Doedd dim llawer o wybodaeth am effeithiau tymor hir [brechlyn COVID] oherwydd nad oedden nhw’n gwybod, yn amlwg. Byddai’n ddiddorol gweld mwy yn y dyfodol”. Person 16–24 oed

3.4 Y gallu i gael gafael ar wybodaeth a’r broses o wneud penderfyniadau


3.4.1 Cyflwyniad

Mae’r adran hon yn edrych ar y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiodd defnyddwyr gwasanaeth i gael gwybod am frechiadau ac i ba raddau y maent yn ymddiried mewn gwahanol ffynonellau. Edrychir hefyd ar effaith adnoddau gwybodaeth ar y broses o wneud penderfyniadau ynghylch cael brechiadau ai peidio.

3.4.2 Lefelau gwybodaeth

Dengys Ffigur 15 i ba raddau mae defnyddwyr gwasanaeth yn cytuno â chyfres o ddatganiadau, sy’n ceisio deall lefelau gwybodaeth am frechiadau a gwybodaeth amdanynt.

Mae oddeutu wyth o bob 10 yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylent gael brechiadau ai peidio hyd yn hyn (86%), ac mae chyfrannau tebyg yn cytuno eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am frechiadau (85%) a’u bod yn gwybod sut mae brechlynnau’n gweithio (81%). Dim ond 3% yn y drefn honno oedd yn anghytuno â’r datganiadau hyn, ac roedd oddeutu un o bob 10 yn niwtral.

Ffigur 15: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)

C1

*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

Mae ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o anghytuno â'r tri datganiad ynghylch lefelau gwybodaeth a gwybodaeth am frechiadau. Mae hyn hefyd yn wir am ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, er nad yw'r canlyniadau ar gyfer y grŵp olaf yn ystadegol arwyddocaol o ystyried maint sylfaenol isel yr is-grŵp hwn (cyfanswm o 35 o ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig).

Gofynnwyd i'r lleiafrif bach o ddefnyddwyr gwasanaethau a oedd yn anghytuno bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylent gael brechiadau ai peidio (15) pa wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt. Gofynnwyd hyn fel cwestiwn agored. O ystyried y nifer isel o ymatebwyr, ni ellid codio'r ymatebion yn themâu. Fodd bynnag, dengys atebion i'r cwestiwn hwn y byddai cyfranogwyr yn hoffi gwybod mwy am gynhwysion a sgil-efeithiau, sy'n cyd-fynd â'r canfyddiadau yn Ffigur 14.

Dengys grwpiau ffocws ansoddol a chyfweliadau â defnyddwyr gwasanaeth fod mwyafrif yn teimlo bod ganddynt yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylent gael y brechiadau a gynigiwyd iddynt hyd yn hyn ai peidio.

“Roeddwn i'n teimlo bod gen i'r holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnaf i”.

Person 25–54 oed

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

“Mae'r wybodaeth yna bob amser ac os oes unrhyw ddarnau ar goll, mae nhw gan y nyrs sydd yna o'ch blaen chi, byddech chi'n gofyn wedyn”. Menyw feichiog

“Mae yna wybodaeth bob amser yn y llythrau yr ydym ni'n eu cael yn fy ngwahodd i neu fy merch neu fy nhad i [gael] brechlynnau ac maen nhw hefyd yn cynnwys rhifau i'w ffonio os oes gennych chi unrhyw gwestiynau”. Gofalwr di-dâl

Fodd bynnag, soniodd lleiafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn y cyfweiliadau ansoddol a'r grwpiau ffocws (pobl ifanc 16–24 oed yn bennaf) nad oedd ganddynt yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt o reidrwydd i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylent gael y brechlyn COVID-19 ai peidio. Roedd hyn oherwydd bod taflenni gwybodaeth yn arfer yn cael eu dosbarthu i bobl ar ôl rhoi'r brechlyn.


“Rwy'n cofio ar gyfer y brechlyn COVID yn benodol eich bod chi'n cael yr wybodaeth ar ôl ichi gael y brechlyn, mewn taflen wybodaeth a roddwyd ichi, felly doeddech chi ddim yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ymlaen llaw a dweud y gwir. Person 16–24 oed

3.4.3 Ffynonellau gwybodaeth

Y ffynonellau gwybodaeth mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan ddefnyddwyr gwasanaeth i gael gwybod am frechiadau yw: gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (52%), ac yna gwefan y GIG (42%) a thaflenni gwybodaeth y GIG (29%). Dywed bron i dri o bob 10 (28%) eu bod wedi defnyddio gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael gwybodaeth am frechlynnau.

Mae un o bob pedwar wedi defnyddio cyfryngau traddodiadol i gael gwybodaeth am frechiadau (25%) a dim ond lleiafrif sydd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol (17%) at y diben hwn.

Ffigur 16: Pa rai o'r canlynol ydych chi wedi eu defnyddio cyn heddiw i gael gwybodaeth am frechiadau?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)

G1

*Ni ddangosir codau islaw 10% er mwyn hwyluso darllen

3.4.4 Ymddiriedaeth mewn ffynonellau gwybodaeth


Er mwyn helpu i ddeall yn well ymddiriedaeth defnyddwyr gwasanaeth yn yr wybodaeth o ffynonellau amrywiol, dangoswyd y rhestr o ffynonellau yr oeddent yn dweud eu bod wedi eu defnyddio i gael gwybodaeth am frechlynnau i gyfranogwyr yr arolwg, a gofynnwyd iddynt ddweud i ba raddau yr oeddent yn ymddiried ynddynt (gweler Ffigur 17).

Y ffynonellau gwybodaeth canlynol sydd â'r sgôr 'ymddiried i raddau helaeth' uchaf: Taflenni gwybodaeth y GIG (74%), meddygon/nyrsys/gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill (71%), gwefan y GIG (70%), fferyllwyr neu bobl eraill mewn fferyllfeydd (69%), a gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru (67%).

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

I'r gwrthwyneb, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau (heblaw gwefannau'r GIG neu ICC) yw'r ffynonellau y mae defnyddwyr gwasanaeth yn ymddiried lleiaf ynddynt, gyda 27% ohonynt yn dweud nad ydynt yn ymddiried llawer, neu ddim o gwbl, yn y cyfryngau cymdeithasol ac 20% yn dweud hynny am wefannau heblaw gwefannau'r GIG neu ICC. Serch hynny, mae'n werth nodi bod 25% o'r rhai sydd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth am frechlynnau yn ymddiried ynddynt i raddau helaeth, a bod 46% arall yn dweud eu bod yn ymddiried rhywfaint yn y ffynhonnell hon. Yn gyffredinol, dywed 71% o'r defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol eu bod yn ymddiried yn yr wybodaeth ar y llwyfannau hyn i ryw raddau o leiaf. Mae hwn yn ystyriaeth bwysig oherwydd, fel y trafodir yn adran 3.1.3, mae'r wybodaeth a geir ar gyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gyfleu negeseuon cymysg o blaid ac yn erbyn brechu. Yn yr un modd, mae 78% o'r rhai sydd wedi defnyddio gwefannau heblaw gwefannau y GIG neu ICC yn ymddiried o leiaf rhywfaint yn y rhain.

Ffigur 17: Ac i ba raddau ydych chi'n ymddiried yn yr wybodaeth a roddir i chi o'r ffynonellau hyn?



Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi defnyddio pob adnodd (maint sylfaen mewn cromfachau) G2

*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

*Dim ond canlyniadau ar gyfer ffynonellau a ddefnyddir gan o leiaf 10% o'r ymatebwyr yng nghwestiwn G1 sy'n cael eu dangos

Cyfeiriwyd at wefan y GIG yn gyffredin fel ffynhonnell ddibynadwy ymhlith defnyddwyr gwasanaeth mewn cyfweiliadau ansoddol a grwpiau ffocws.

“Yn fy nhyb i, dyna [gwefan y GIG] yw'r ffynhonnell mwyaf ddibynadwy y gallaf ddod o hyd iddi felly dw i ddim yn tueddu i edrych ar ddim byd arall oherwydd nad wyf yn siŵr iawn pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth”. Aelod o'r gymuned LGBTQ+

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

“Rwy’n ymddiried ynnddi [gwefan y GIG] a dim ryw berson ar hap yn dweud beth mae e’n ei feddwl am y peth fydd hi”. Gofalwr di-dâl

“Mae[r]r wybodaeth ar wefan y GIG yn cyd-fynd â’r wybodaeth y mae eich meddyg teulu a’ch bydwraig yn ei rhoi ichi. Weithiau, gall pethau gael eu dramateiddio os ewch chi ar wefannau gwahanol a dydych chi ddim yn gwybod o ba ffynhonnell maen nhw wedi dod”. Menyw feichiog


“Fy nghasbeth i gyda gwefannau [eraill] yw pan maen nhw’n datgan ystadegyn ac yn methu â chyfeirio ato fe. A yw’n dod o wefan y cwmni? Rwy’n dymuno cael yr holl ffeithiau, ond sut ydw i’n gwybod hynny os nad ydych chi’n mynd i’w cefnogi nhw”. Person 16–24 oed

3.4.5 Y broses o wneud penderfyniadau

Yn dilyn agweddau defnyddwyr gwasanaeth tuag at frechiadau a’u lefelau o wybodaeth a’u hanghenion gwybodaeth, gofynnwyd cwestiwn yn yr arolwg i ddeall proses o wneud penderfyniadau y defnyddwyr gwasanaeth ynghylch cael brechiadau (gweler Ffigur 18).

Dywedodd dros hanner (57%) y defnyddwyr gwasanaeth eu bod yn cael yr holl imiwneiddiadau a gynigir iddynt yn awtomatig. Dywedodd un o bob pedwar (24%) eu bod yn arfer yn cael yr holl frechlynnau a gynigir iddynt ond eu bod yn hoffi gwirio gwybodaeth cyn cael y brechlynnau, ac mae un o bob 10 (11%) yn pwysu a mesur fanteision ac anfanteision gwahanol frechlynnau cyn penderfynu a ddylent eu cael nhw ai peidio. Dim ond dau y cant a ddywedodd eu bod yn gwirio gwybodaeth am frechiadau ond nad ydynt yn arfer eu cael nhw, a dywedodd cyfran debyg eu bod yn gwybod nad ydynt yn dymuno cael brechiadau ac felly nad oes angen gwirio gwybodaeth. Nid yw’r tri y cant sy’n weddill yn gwybod.

Ffigur 18: Wrth ystyried yr imiwneiddiadau a gynigwyd i chi hyd yn hyn, pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)
F1

Mae defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig (17%), a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (37%), yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn pwysu a mesur fanteision ac anfanteision brechiadau cyn penderfynu a ddylent eu cael nhw ai peidio (17%). Mae preswylwyr hŷn (55+ oed) (64%) a gofalwyr di-dâl (76%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud penderfyniadau awtomatig i gael y brechiadau a gynigir iddynt.

3.5 Derbyn brechlynnau, rhwystrau ac ysgogiadau

3.5.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio nifer y defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi derbyn y brechiadau a gynigwyd iddynt hyd yn hyn, yn ogystal â'r rhwystrau a'r ysgogiadau dros gael brechiadau.

3.5.2 Derbyn brechiadau

Dywedodd saith o bob 10 (73%) defnyddiwr gwasanaeth eu bod wedi derbyn yr holl frechiadau a gynigwyd iddynt hyd yn hyn (gweler Ffigur 19). Fodd bynnag, dywedodd ychydig o dan un o bob pedwar (24%) eu bod wedi gwrthod neu ohirio un neu fwy o frechlynnau: mae hyn yn cynnwys 17% a honnodd eu bod wedi gwrthod un neu fwy o frechiadau a saith y cant ychwanegol a ddywedodd eu bod wedi gohirio


Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

un neu fwy o frechiadau. Nid oedd y tri y cant a oedd yn weddill yn gwybod neu ni allent gofio a oeddent wedi gwrthod neu ohirio brechiadau.

Mae ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o fod wedi gwrthod neu ohirio brechiadau (27%), fel y mae ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn ddeurywiol (42%) a'r rhai sydd wedi dod ar draws gwybodaeth sy'n peri pryder am frechiadau (55%). Mae ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gwrthod neu ohirio brechlynnau (29%); fodd bynnag, nid yw'r canlyniad hwn yn ystadegol arwyddocaol o ystyried maint sylfaen isel y grŵp hwn (35).


Mewn cyferbyniad, mae preswylwyr hŷn (79%) a gofalwyr di-dâl (86%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi derbyn yr holl frechiadau a gynigwyd iddynt.

Ffigur 19: Gan feddwl am yr holl frechiadau sydd wedi'u cynnig i chi hyd yn hyn, ydych chi erioed wedi gwrthod neu ohirio brechiad?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)
D1

Gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth a ddywedodd eu bod wedi gwrthod neu ohirio brechiadau (140 allan o 586 o ymatebwyr) pa frechiadau yr oeddent wedi eu gwrthod neu eu gohirio (gweler Ffigur 20). Dywedodd ychydig yn llai na dau o bob tri (65%) o'r ymatebwyr hyn eu bod wedi gwrthod neu ohirio'r brechlyn COVID-19, a dywedodd un o bob tri (35%) eu bod wedi gwrthod neu ohirio'r brechlyn fflw. Roedd gweddill y brechlynnau wedi eu gwrthod neu eu gohirio gan lai na phump y cant o'r ymatebwyr a oedd erioed wedi gwrthod neu ohirio brechiadau.

Ffigur 20: Pa frechiad(au) wnaethoch chi eu gwrthod neu eu gohirio?

Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi gwrthod neu ohirio brechiadau (140)
D3


3.5.3 Rhwystrau

Yna gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth a ddywedodd eu bod wedi gwrthod neu ohirio brechiadau (140 allan o 586 o ymatebwyr) beth oedd eu rhesymau dros wneud hynny. Gofynnwyd hyn fel cwestiwn agored. Codiwyd yr ymatebion yn themâu, a dangosir y rhain yn Ffigur 21.

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Y rheswm mwyaf cyffredin dros wrthod neu ohirio brechiadau yw diffyg ymddiriedaeth mewn brechlynnau a'r modd y cawsant eu gwneud, a chyfeiriodd 24% o'r rhai sydd wedi gwrthod/gohirio brechiadau at hyn. Mae rhesymau eraill yn cynnwys: meddwl nad yw'r brechlyn yn angenrheidiol (14%), bod wedi cael y salwch a gwella cyn derbyn brechlyn (14%), ac ofnau am sgil-ffeithiau, p'un a ydynt wedi cael sgil-ffeithiau yn bersonol mewn achlysuron blaenorol (11%) neu wedi clywed am sgil-ffeithiau gan bobl eraill (13%).

Ffigur 21: Pam gwnaethoch chi benderfynu gwrthod neu ohirio'r brechiad(au)?




Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi gwrthod neu ohirio brechiadau (140)
D4

Gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi gwrthod neu ohirio brechiadau hefyd a fyddai unrhyw beth yn eu hannog i gael brechiad yn y dyfodol. Gofynnwyd hyn fel cwestiwn agored hefyd a chodiwyd yr ymatebion yn themâu. Dengys y themâu hyn yn Ffigur 22.

Er bod ychydig yn llai na hanner (48%) y rhai sydd wedi gwrthod neu oedi brechiadau yn dweud na fyddai dim byd yn eu hannog i gael eu brechu, nododd oddeutu un o bob 10 (10%) brawf o ddiogelwch ac effeithiolrwydd y brechlyn fel rhywbeth a fyddai'n eu hannog i gael eu himiwneddio yn y dyfodol. Llai nag un o bob 10 ymatebydd a soniodd am themâu eraill, ond mae'r rhain yn cynnwys: mwy o wybodaeth/data am frechiadau (tri y cant), mwy o sicrwydd (dau y cant), a chynyddu'r rhwyddineb mynediad/hwylustod (3%).

Ffigur 22: A fyddai unrhyw beth yn eich annog i beidio â gwrthod neu ohirio brechiad(au) yn y dyfodol?



Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi gwrthod neu ohirio brechiadau (140)
D5

Dengys cyfweiliadau ansoddol a grwpiau ffocws fod pryderon am ddiogelwch brechlynnau a sgil-ffeithiau ymhlith y prif rwystrau i'w derbyn ymhlith defnyddwyr gwasanaeth. Roedd hyn yn destun pryder ymhlith rhai menywod beichiog yn enwedig.

“Rwy’n tueddu i’w cael nhw i gyd [brechlynnau]. Yn amlwg, roedd gen i rai pryderon am y brechlyn COVID oherwydd ei fod yn newydd sbon ond roedd y rhai eraill yn hollol iawn”. Menyw feichiog

Rhwyrstr arall a ddyfynnodd y defnyddwyr gwasanaeth a'r darparwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn yr arolwg yn gyffredin oedd y ffaith nad yw rhai pobl yn credu bod angen brechlynnau penodol arnynt oherwydd nad ystyrir rhai clefydau yn beryglus. Cipiwyd y thema hon hefyd gan y cyfweiliadau ansoddol a'r grwpiau ffocws gyda defnyddwyr gwasanaeth.

“Rwy’n tueddu i fod yn iach ac yn egniol. Dydw i ddim yn cael llawer o heintiau. Byddai’n well gen i gymryd fy siawns gyda’r fflw go iawn. Rwyf wedi clywed am bobl sy’n sâl iawn ar ei ôl ef [y brechlyn fflw]”. SEG DE/Derbynnydd budd-daliadau


3.5.4 Ysgogiadau

Fel y trafodir yn adran 3.5.2, mae'r mwyafrif o'r defnyddwyr gwasanaeth yn dweud eu bod wedi derbyn yr holl frechiadau a gynigwyd iddynt (430 o ymatebwyr). Gofynnwyd i'r ymatebwyr hyn am eu hysgogiadau dros gael eu brechu. Gofynnwyd hyn fel cwestiwn agored a dangosir y themâu wedi eu codio yn Ffigur 23.

Diogelu eich hun yw'r prif reswm dros gael eich imiwneiddio (64%), ac mae oddeutu un o bob 10 hefyd yn sôn am ddiogelu eraill (11%) ac ymddiried mewn brechlynnau (14%). Soniwyd am weddill y themâu gan lai nag un o bob 10 o'r rhai a oedd wedi derbyn eu holl frechiadau.

Mae gofalwyr di-dâl yn fwy tebygol na grwpiau defnyddwyr gwasanaeth eraill o ddweud bod diogelu eraill yn eu hysgogi i gael brechiad.

Ffigur 23: Pam gwnaethoch chi benderfynu cael yr holl frechiadau a gafodd eu cynnig i chi?



Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth y cynigwyd brechiadau iddynt (430)
D1

Mae mewnwelediadau ansoddol yn cadarnhau mai diogelu eu hunain ac eraill yw'r prif ysgogiad i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu brechu.

“Wnaeth gwraig fy ffrind ddim wedi cael y brechlyn MMR ac fe'i gadawyd ag anabledd hirdymor... Gallwch fod yn eu herbyn nhw, ond mae'r pigladau yno am reswm. Maen nhw yno oherwydd bod miliynau wedi marw oherwydd y

pethau sylfaenol hyn dros y canrifoedd [...] Mae pigladau yn ataliol, maen nhw'n bwysig". Oedolion sydd ag anableddau

"Rwy'n meddwl [bod y brechlyn COVID] yn cael effaith gadarnhaol o ran niferoedd llai yn mynd i'r ysbyty ac mae gan ffrindiau hyd yn oed sydd wedi cael COVID lai o symptomau ar ôl cael y brechlyn". Person 16–24 oed

"Os allwch chi gael brechlyn, yn amlwg, baswn i'n dweud ewch amdano oherwydd, yn ogystal â helpu eich hun, rydych hefyd yn bod yn feddylgar o bobl eraill sy'n agored i niwed ac yn dal pethau'n hawdd, yn enwedig pobl o ddemograffeg hŷn neu bobl sydd â phroblemau imiwnedd". Person LGBTQ+

3.6 Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd ICC

3.6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn dadansoddi ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth o gyhoeddusrwydd ICC mewn cysylltiad â brechiadau. Yna mae'n archwilio sianeli y mae ymatebwyr wedi dod ar draws cyhoeddusrwydd ICC drwyddynt yn ogystal â safbwyntiau ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd ICC.

3.6.2 Ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ICC


Dangoswyd cyfres o daflenni gwybodaeth ICC a phostiadau cyfryngau cymdeithasol am frechiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi eu gweld cyn cymryd rhan yn yr arolwg. Roedd y deunyddiau a ddangoswyd yn wahanol gan ddibynnu ar is-grŵp yr ymatebydd (gweler ')

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Atodiad 3: Deunyddiau a werthuswyd yn yr arolwg meintiol' i gael dadansoddiad llawn o'r grwpiau a'r hysbysebion a ddangoswyd), ond dangoswyd tri amrywiad o ddeunyddiau i bob ymatebydd.

Yn gyffredinol, dywedodd dau o bob pump (41%) eu bod wedi gweld o leiaf un daflen wybodaeth/postiad cyfryngau cymdeithasol cyn cymryd rhan yn yr arolwg. Mae rhai gwahaniaethau fesul ôl is-grŵp, ac mae rhieni'n llawer mwy tebygol o fod wedi dod ar draws cyhoeddusrwydd ICC (64%) a thrigolion hŷn (55+ oed) yn llai tebygol o fod wedi gwneud hynny (28%). Ar gyfer gweddill yr is-grwpiau a ddangosir isod, mae'r canlyniadau yn unol â chyfanswm y canlyniad.

Ffigur 24: A ydych chi wedi gweld unrhyw rai o'r taflenni gwybodaeth neu'r postiau cyfryngau cymdeithasol hyn cyn heddiw?



Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth (meintiau sylfaen mewn cromfachau)
H1


Mae'r ffigurau mewn du yn dangos gwahaniaethau ystadegol sylweddol o'u cymharu â'r cyfanswm ar lefel hyder o 95%

*Ni ddangosir rhai grwpiau oherwydd eu meintiau sylfaen isel

Dengys Ffigur 25 y ffynonellau lle mae defnyddwyr gwasanaeth wedi dod ar draws cyhoeddusrwydd ICC. Mae meddygfeydd (28%) a chanolfannau brechu (19%) ar frig y rhestr o sianeli lle mae defnyddwyr gwasanaeth wedi gweld cyhoeddusrwydd ICC. Dilynir hyn gan gyfryngau cymdeithasol (10%). Soniwyd am weddill y sianeli gan lai nag un o bob 10 ymatebydd.

Yn gyffredinol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a lleoliadau gofal iechyd yw'r ffordd fwyaf cyffredin o ddod ar draws cyhoeddusrwydd ICC (59%).

Ffigur 25: Ble wnaethoch chi weld hyn?



Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi gweld cyhoeddusrwydd ICC (240)

H2

*Ni ddangosir codau islaw pedwar y cant er mwyn hwyluso darllen


Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yna gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth a oeddent wedi gweld logo *Mae Brechu yn achub bywydau/Vaccination saves lives* cyn cymryd rhan yn yr arolwg (gweler Ffigur 26).

Dywedodd ychydig yn llai na dau o bob pump (39%) eu bod wedi gweld y logo hwn a dywedodd ychydig yn llai na hanner (49%) y defnyddwyr gwasanaeth nad oeddent wedi ei weld o'r blaen. Nid oedd y gweddill (11%) yn gwybod.

Mae rhieni plant o dan 18 oed yn fwy tebygol o fod wedi gweld logo *Mae Brechu yn achub bywydau/Vaccination saves lives* (56%), fel y mae'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau neu Gredyd Cynhwysol (49%). I'r gwrthwyneb, mae preswylwyr hŷn (55+ oed) yn llai tebygol o fod wedi gweld y logo (21%).

Ffigur 26: Oeddech chi wedi gweld y logo isod cyn heddiw?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)
H5


3.6.3 Safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd ICC

Dengys Ffigur 27 safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ar gyhoeddusrwydd ICC.

Roedd bron i naw o bob 10 (88%) yn fodlon â'r deunyddiau ICC a ddangoswyd iddynt ar y cyfan. Roedd cyfrannau tebyg yn fodlon â faint o wybodaeth (89%), pa mor glir yw'r wybodaeth (87%) a'r cynllun/diwyg (85%). Roedd llai na phedwar y cant yn anfodlon ag unrhyw un o'r agweddau hyn, a niwtral am y deunyddiau yr roedd yr un o bob 10 sy'n weddill yn bennaf.

Mae ymatebwyr iau, 16–24 oed, yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn anfodlon ar y cyfan â'r deunyddiau y dangoswyd iddynt (tri y cant).

Ffigur 27: Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael yw elfennau canlynol y taflenni gwybodaeth/postiadau cyfryngau cymdeithasol?




Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi gweld cyhoeddusrwydd ICC (240)
H3

*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

Yna gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth a oedd y taflenni gwybodaeth a'r postiadau cyfryngau cymdeithasol a ddangoswyd iddynt yn berthnasol iddynt. Roedd 86% yn cytuno bod y deunyddiau'n berthnasol a dim ond pedwar y cant oedd yn anghytuno. Roedd un o bob 10 (10%) yn niwtral ac nid oedd un y cant yn gwybod.

Ffigur 28: Ac i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol?



Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi gweld cyhoeddusrwydd ICC (240)
H4

*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

Mewn cyfweiliadau ansoddol a grwpiau ffocws, roedd modd holi cyfranogwyr ymhellach er mwyn casglu rhagor o fanylion am eu safbwyntiau ar ddeunyddiau brechu ICC. Gellir dod o hyd i'r deunyddiau ICC a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws ansoddol yn Atodiad 4: Deunyddiau a werthuswyd yn y grwpiau ffocws ansoddol a'r cyfweiliadau.

Ar draws trafodaethau am yr holl gyfathrebiadau, roedd themâu penodol yr oedd y cyfranogwyr yn eu gweld yn gadarnhaol. Yn gyffredinol, pan oedd y deunyddiau cyfathrebu yn cynnwys lliwiau, delweddau neu ddiagramau; fe'u hystyriwyd yn drawiadol.

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

“Rwy’n hoffi’r lliwiau. Does dim gormod, ond mae’n well na bod yn blaen, mae’n dal eich llygad ychydig yn fwy.” LGBTQ+, Taflen Wybodaeth COVID a Ffliw Oedolion (atodiad 4:7)

O ystyried apêl delweddau a lliwiau, un o’r deunyddiau yr oedd cyfranogwyr yn ei gwerthfawrogi oedd yr arddull stribed comig sy’n egluro brechiadau COVID-19 (atodiad 4:10).

“Mae popeth yn cael ei egluro’n glir â geiriau a delweddau. Rwy’n hoffi’r ddelwedd o COVID fel bws, a’r darian i ddangos y diogelwch.” Person sydd wedi ei ddosbarthu fel SEG DE/Derbyn Budd-daliadau, Stribed Comig ar Frechiadau COVID-19 (atodiad 4:10)

“Hyd yn oed os nad ydych chi’n ei ddarllen, rydych yn cael syniad da o’r hyn sy’n digwydd. Mae’n gweithio hyd yn oed os yw ar ochr arall yr ystafell.” Person 16–24 oed, Stribed Comig ar Frechiadau COVID-19 (atodiad 4:10)

“Byddwn i’n mynd cyn belled â darllen hwn, mor blentynnaidd ag ydyw. Mae’n hwyl, hyd yn oed ar gyfer fy oedran i.” Person 16–24 oed, Stribed Comig ar Frechiadau COVID-19 (atodiad 4:10)

Yn gysylltiedig â delweddau o hyd, roedd defnyddwyr gwasanaeth yn gwerthfawrogi pan oedd cyfathrebiadau’n targedu eu grŵp yn glir, oherwydd eu bod yn gwybod y byddai canllawiau sy’n berthnasol iddynt ac y byddent yn teimlo bod y system gofal iechyd yn eu hystyried nhw.

“Y llun ar y tu blaen, rwy’n ei hoffi fe gan mai baban yw ef felly rydych chi’n mynd i feddwl: ‘ie, mae hwnna’n berthnasol i mi’.” Menyw feichiog, Taflen Wybodaeth Brechlynnau ar gyfer Babanod a Phlant (atodiad 4:1)

“Mae’r delweddau’n berthnasol, mae’n braf bod ganddyn nhw gwpl o’r un rhyw ar y dudalen flaen felly mae’n gwneud y gymuned LGBTQ yn fwy ymwybodol ei bod yn cyfeirio arnyn nhw hefyd fel nad ydyn nhw’n teimlo wedi eu heithrio.” Person LGBTQ+, Taflen Wybodaeth Brech y Mwnciod (atodiad 4:17)

Yn ogystal â hynny, o ran y cynllun, gwerthfawrogwyd penawdau trwm hefyd sy’n gwneud llawer iawn o wybodaeth yn rhwydd ei llywio.

“Mae’r ffaith bod ganddi’r penawdau’n golygu y byddwn i’n gallu mynd yn syth at unrhyw beth yr oedd gen i ddiddordeb ynddo.” Oedolyn 25–54 oed, Taflen Wybodaeth COVID a Ffliw Oedolion (atodiad 4:7)

Er y gwerthfawrogi'r penawdau a'r elfennau gweledol, y canfyddiad cyffredinol ymhlith defnyddwyr gwasanaeth oedd bod taflenni gwybodaeth a deunyddiau ysgrifenedig yn 'rhy eiriog' yn gyffredinol, ac yr ystyrir cyfanswm y testun yn ormodol ac yn llethol i'r mwyafrif.

"Mae'n rhy eiriog rwy'n meddwl, mae yna lawer o wybodaeth". Menyw feichiog, Taflen Wybodaeth Brechlynnau ar gyfer Babanod a Phlant (atodiad 4:1)

"Mae yna lawer yno [...] Mae'n llethol". Oedolyn ag anableddau, Taflen Wybodaeth COVID a Ffliw Oedolion (atodiad 4:8)

Pwnc cyffredin mewn trafodaethau oedd sut y gallai fod yn anodd cynnwys yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol heb fod yn rhy eiriog i ennyn diddordeb pobl. Hefyd, mae ymdeimlad clir bod lefel yr esboniad a'r ddealltwriaeth y mae defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno eu gweld yn wahanol iawn. Mae'n well gan rai grwpiau neu unigolion wybod yr holl fanylion am y brechiad, gan gynnwys i bwy mae ef, yr hyn y mae'n diogelu rhagddo, sut mae'n gweithio, cynhwysion a sgil-efeithiau. Fodd bynnag, nid yw eraill yn dymuno neu angen gwybod cymaint, a hoffent gael trosolwg o'r pethau sylfaenol ymarferol ynghylch a oes angen brechlyn penodol arnynt a sut i'w gael ef.

"Ni fydd yn addas i bawb gan ei bod yn amlwg wedi ei hanelu'n fwy at bobl iau, a chan ei bod yn syml, efallai y bydd gwybodaeth ar goll." Person sydd wedi ei ddosbarthu fel SEG DE/Derbyn Budd-daliadau, Stribed Comig ar Frechlyn COVID-19 (atodiad 4:10)

"Rwy'n meddwl ei bod yn cwmpasu popeth ond mae'n ymddangos ychydig yn hir... Os ydych chi'n treulio'r amser yn ei darllen, mae'n iawn." Oedolyn ag Anableddau, Taflen Wybodaeth COVID a Ffliw Oedolion (atodiad 4:8)

Nododd y cyfranogwyr hefyd y ffyrdd yr oedd y cyfathrebiadau'n ymdrin â'r cydbwysedd rhwng breuder gwybodaeth a chynnwys yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen, yn benodol y defnydd o adran â dolenni neu god QR i gael rhagor o wybodaeth. Hyd yn oed cyn gweld y deunyddiau, soniodd sawl cyfranogwr am godau QR fel nodwedd werthfawr ar gyfathrebiadau ynghylch brechiadau, fel y gallai pobl weld poster neu daflen wybodaeth drawiadol a gwybod ble i fynd os oeddent yn dymuno cael rhagor o wybodaeth.

"Mae hyn yn teimlo'n addysgiadol gyda'r dolenni a'r codau QR ychwanegol... Mae'n gryno iawn ac yn uniongyrchol ac mae hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth ac yn eich cyfeirio at wefannau priodol". Gofalwr di-dâl, Taflen Wybodaeth HPV Hawdd ei Deall (atodiad 4:16)

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

“Dydych chi ddim eisiau gormod o wybodaeth na phrint bach. Cadwch bethau’n syml, cadwch at yr hyn sy’n berthnasol a rhowch gyfeiriad gwefan.”
Person o gefndir ethnig lleiafrifol

Roedd y mwyafrif o’r cyfranogwyr yn teimlo bod y deunyddiau a ddangoswyd iddynt yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt am bob brechlyn, a dim ond lleiafrif o’r cyfranogwyr a nododd ddarnau o wybodaeth a oedd ar goll yn y deunyddiau a ddangoswyd iddynt neu wybodaeth y byddent wedi hoffi ei gweld. Roedd diffyg gwybodaeth yn ymwneud â meini prawf cymhwysedd yn bennaf a’r rhesymau dros gael y brechlyn/yr hyn y mae’n ei ddiogelu rhagddo.

“Hoffwn gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd, ac a yw pobl sydd â chyflyrau penodol yn gallu cael y brechlynnau.” Person LGBTQ+, Taflen Wybodaeth COVID a Ffliw Oedolion (atodiad 4:7)

“Rwy’n deall nad ydyn nhw eisiau ei gorlwytho â gwybodaeth, ond dw i ddim yn gwybod beth mae’r brechlynnau yma’n ei wneud, pam y byddwn i’n eu cael nhw, ac a ydw i eisoes wedi eu cael nhw.” Person 16–24 oed, Post Cyfryngau Cymdeithasol ynghylch Mynd i’r Brifysgol (atodiad 4:12)

Er bod defnyddwyr gwasanaeth yn gwerthfawrogi’r deunyddiau sy’n targedu grwpiau penodol, roedd rhywfaint o ddryswch o ran cynulleidfa darged rhai deunyddiau penodol pan nad yw’r rhain yn targedu grŵp penodol. Roedd hyn yn enwedig o wir gyda thaflen wybodaeth COVID a fflw yr oedolion sy’n dangos ddau oedolyn hŷn ar y dudalen flaen, a’r postiad cyfryngau cymdeithasol ynghylch paratoi am y brifysgol hefyd.

“Pobl hŷn yw’r llun cyntaf, felly ’dyw hon ddim yn edrych fel ei bod i mi.”
Oedolion ag Anableddau, Taflen Wybodaeth COVID a Ffliw Oedolion (atodiad 4:8)

“O edrych ar y dudalen flaen, byddwn i’n meddwl ei bod wedi ei hanelu at bobl dros 60 oed.” Gofalwr di-dâl, Taflen Wybodaeth COVID a Ffliw Oedolion (atodiad 4:8)

“Dyw hi ddim yn glir a ydyn nhw’n targedu myfyrwyr presennol neu ddarpar fyfyrwyr... a ’dyw pawb ddim yn mynd i’r brifysgol, felly efallai y byddwch yn meddwl nad yw’n berthnasol i chi, pan mae’n berthnasol.” Person 16–24 oed, Post Cyfryngau Cymdeithasol ynghylch Paratoi ar gyfer y Brifysgol (atodiad 4:12)

Yn ogystal â hynny, mewn lleiafrif o achosion, roedd y cynulleidfaoedd a dargedwyd yn teimlo bod cyfathrebiadau yn methu’r nod, naill ai oherwydd yr iaith a ddefnyddir neu oherwydd diffyg dealltwriaeth ynghylch pam y targedwyd grŵp penodol.

“O ystyried eu bod nhw’n defnyddio geiriau fel aspirin, condom ac ati, mae defnyddio’r gair ‘darnau preifat’ yn blentynnaidd iawn ar gyfer taflen feddygol ac mae’n ymddangos ychydig yn wirion... mae’n dibynnu ar y grŵp oedran, ond os ydych chi’n darllen y daflen hon fel glaslanc, gallai wneud i chi deimlo’n eithaf plentynnaidd, neu eich bod yn cael eich trin yn nawddoglyd. ‘Dyw HPV ei hun ddim yn beth plentynnaidd i’w drafod.” Person 16–24 oed, Taflen Wybodaeth HPV Hawdd ei Deall (atodiad 4:15)


“Efallai bod ganddi fwriadau da drwy geisio apelio at aelodau Moslemaidd o’r gymuned, ond mae’n ymddangos ychydig yn ddibwrpas. ‘Allaf i ddim gweld sut mae Ramadan a COVID yn gysylltiedig, felly dw i ddim yn siŵr beth mae’n ceisio ei wneud.” Person o gefndir ethnig lleiafrifol, Ymgyrch Ramadan ar y Cyfryngau Cymdeithasol (atodiad 4:4)

3.6.4 Dewis fformat a sianel ar gyfer cyhoeddusrwydd ICC

Er mwyn deall y sianeli gorau i’w defnyddio i roi cyhoeddusrwydd i ddeunyddiau ICC, gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth pa sianeli maen nhw’n eu defnyddio o leiaf ddwywaith yr wythnos (gweler Ffigur 29).

Teledu (71%), Facebook (62%), a WhatsApp (54%) yw’r sianeli a ddefnyddir fwyaf, ac yna YouTube (47%) a’r radio (45%).

Ffigur 29: A pha rai o'r canlynol ydych chi'n arfer eu defnyddio o leiaf ddwywaith yr wythnos?



Sylfaen: Pob defnyddiwr gwasanaeth (586)
G3

Mae ymatebwyr iau, 16–24 oed, yn llai tebygol na grwpiau oedran eraill o ddefnyddio Facebook (55%) ac yn fwy tebygol o ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill megis Instagram (52%, o'u cymharu â 32% ar y cyfan) a TikTok (54%, o'u cymharu â 22% ar y cyfan). Mae YouTube hefyd yn cael ei defnyddio'n fwy cyffredin gan genedlaethau iau (68%, o'u cymharu â 47% ar y cyfan). I'r gwrthwyneb, mae preswylwyr hŷn (55+ oed) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio cyfryngau traddodiadol fel teledu (86%, o'u cymharu â 71% ar y cyfan), y radio (55%, o'u cymharu â 45% ar y cyfan), a phapurau newydd (39%, o'u cymharu â 27% ar y cyfan).

Mae gofalgwyr di-dâl yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio: teledu (86%, o'u cymharu â 71% ar y cyfan), Facebook (76%, o'u cymharu â 62% ar y cyfan), a phapurau newydd (41%, o'u cymharu â 27% ar y cyfan).


Yn ogystal â hynny, mae ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddefnyddio: WhatsApp (71%, o'u cymharu â 54% ar y cyfan), Instagram (60%, o'u cymharu â 32% ar y cyfan), TikTok (37%, o'u cymharu â 22% ar y cyfan), a Snapchat (29%, o'u cymharu â 16% ar y cyfan). Yn yr un modd, mae rhieni plant o dan 18 oed yn fwy tebygol o ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook (70%, o'u cymharu â 62% ar y cyfan), Instagram (42%, o'u cymharu â 32% ar y cyfan), TikTok (30%, o'u cymharu â 22% ar y cyfan), a Snapchat (21%, o'u cymharu â 16% ar y cyfan).

Dylid ystyried y gwahaniaethau uchod wrth dargedu gwahanol grwpiau poblogaeth.

Gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth ag anableddau (143) a hoffent weld adnoddau gwybodaeth am frechiadau ar gael mewn fformatau hygyrch (Ffigur 30).

Roedd saith o bob 10 (73%) yn teimlo nad oes angen adnoddau gwybodaeth arnynt mewn fformatau hygyrch (73%). Fodd bynnag, hoffai un o bob pedwar (27%) weld gwybodaeth am frechiadau sydd ar gael mewn fformatau hygyrch. Mae'r fformatau hyn yn cynnwys: print bras (18%), Hawdd eu Deall (12%), Braille (chwech y cant) a disgrifiad sain (chwech y cant) ac iaith arwyddion (tri y cant).

Ffigur 30: Ac a hoffech gael adnoddau gwybodaeth am y brechiadau sydd ar gael mewn unrhyw un o'r fformatau hygyrch canlynol?



Sylfaen: Defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anabledd (143)
H4B

Gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn yr arolwg ac a ddywedodd mai iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg yw'r brif iaith y maent yn ei siarad gartref a hoffent gael adnoddau brechu ar gael yn eu hiaith. Dylid nodi mai dim ond 15 o ymatebwyr a ddywedodd mai iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg yw eu prif iaith, felly dylid dehongli canlyniadau y cwestiwn hwn yn ofalus. O'r 15 o ymatebwyr hynny, mae'r mwyafrif ohonynt (12) yn hapus derbyn yr adnoddau hyn yn Gymraeg neu Saesneg yn unig a dim ond tri o'r ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn hoffi gweld yr adnoddau hyn ar gael yn eu hiaith eu hunain. Dylid nodi bod pob arolwg ar gyfer ymatebwyr nad Cymraeg/Saesneg yw eu prif iaith wedi eu cwblhau yn Gymraeg/Saesneg, sy'n golygu nad yw'r safbwyntiau hyn yn cynrychioli'r rhai y gallai iaith fod yn rhwystr iddynt. Dylid cynnal mwy o ymchwil yn y dyfodol gyda'r rhai y mae iaith yn rhwystr iddynt.

Pan ofynnwyd iddynt mewn trafodaethau ansoddol ble dylid rhannu gwybodaeth, yn nodweddiadol, roedd defnyddwyr gwasanaeth yn enwi lleoliadau gofal iechyd megis fferyllfeydd a meddygfeydd, yn ogystal â mannau cyhoeddus eraill megis archfarchnadoedd, bysiau a thoiledau cyhoeddus. Mewn rhai achosion, awgrymwyd y dylid rhannu deunyddiau lle gall y grwpiau targed eu gweld nhw, er enghraifft mewn ysgolion neu wardiau mamolaeth. Fodd bynnag, soniodd rhai efallai na fydd

llawer o bobl yn codi taflenni gwybodaeth neu'n darllen posteri, ac y gallai'r deunyddiau ffisegol hyn fod yn ddrud ac nid yn gyfeillgar i'r amgylchedd.

"Dydych chi ddim yn amgyffred posteri bob amser pan rydych chi'n crwydro yma a thraw". Person o gefndir ethnig lleiafrifol

"Yn yr oes sydd ohoni, mae'n rhaid bod lle gwell i ledaenu gwybodaeth nag â thaflenni gwybodaeth." Person 55+ oed

Mae hysbysebion teledu neu bostiadau cyfryngau cymdeithasol yn sianeli eraill a awgrymwyd ar gyfer cyrraedd y werin. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai dim ond rhai negeswyr fyddai'n effeithiol, gan ddibynnu ar lefel yr ymddiriedaeth sydd gan gynulleidfaoedd yn y sefydliad neu'r person sy'n rhannu'r cyfathrebiad.

"Rwy'n credu bod cyfryngau cymdeithasol yn eithaf da oherwydd eu bod yn gallu targedu cynulleidfawr, ond byddai'n rhaid i hyn ddibynnu ar bwy sy'n postio. Pe byddai'n unrhyw un heblaw'r GIG/ICC, byddwn yn ei hanwybyddu". Person 16–24 oed

O ran fformat, awgrymwyd fideos hefyd fel fformat priodol i gyfleu gwybodaeth am frechiadau. Soniodd defnyddwyr gwasanaeth y gall fideos fod yn ffordd dda o wneud gwybodaeth am frechiadau yn hawdd ei deall o'i chymharu â thaflenni gwybodaeth.

"Nid fy mod i'n amharod i ddarllen, ond... â fideo, dim ond gwranddo arno fe sy'n rhaid ichi". Oedolion sydd ag anableddau

"Pe byddai modd rhoi'r wybodaeth yna mewn fideo, byddai hynny'n ddefnyddiol". Menyw feichiog

Mae'n amlwg i ddefnyddwyr gwasanaeth nad oes dull sy'n addas i bawb, ac mae hyn yn enwedig o amlwg wrth edrych ar draws demograffeg leiafrifol. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth o gefndiroedd ethnig lleiafrifol y siaradwyd â nhw mewn trafodaethau yn fwy tebygol o fod wedi clywed pethau negyddol am frechiadau ar lafar gan eu bod yn tueddu i fyw mewn cymunedau clòs. Felly, hoffai'r defnyddwyr gwasanaeth hyn weld eiriolwyr sydd yn eu cymunedau ethnig neu grefyddol i helpu i rannu gwybodaeth ffeithiol.

"Y broblem gyda phethau fel hyn mewn cymuned Somali yw ei bod hi'n gymuned glòs ac mae pawb yn gwybod am rywun sydd wedi cael profiadau gwael ac yn dweud wrthoch chi am hynny. Byddai mwy o eiriolwyr yn y gymuned yn ddefnyddiol, gan fod llawer o wybodaeth yn gallu lledaenu." Person nad Cymraeg/Saesneg yw ei brif iaith

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Hefyd, awgrymwyd ar gyfer targedu'r rhai sydd mewn grwpiau agored i niwed megis y rhai sydd ag anghenion ychwanegol, efallai fod angen mabwysiadu dull mwy uniongyrchol.

“Yr ysgogiad gorau i rywun sydd ag anghenion gwybyddol fyddai rhywun yn estyn allan yn bersonol, oherwydd fyddai fy mab i, er enghraifft, ddim yn estyn allan yn rhagweithiol. Byddai llythyr hefyd yn debygol o gael ei wffio, ond mae galwad ffôn yn ffordd wych o gyfathrebu.” Gofalwr Di-dâl

4. Darparwyr Gwasanaeth

4.1 Sgyrsiau am frechiadau


4.1.1 Cyflwyniad

Cyn i ddarparwyr gwasanaeth gael eu holi am eu canfyddiadau a'u gwybodaeth am y rhaglen imiwneiddio yng Nghymru, gofynnwyd iddynt am unrhyw sgysiau y gallent fod wedi eu cael am frechiadau â'u defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r adran hon yn edrych ar sgysiau am frechiadau mewn cyd-destun iechyd ehangach.

4.1.2 Dwyn i gof sgysiau sy'n gysylltiedig ag iechyd

Gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth pa bynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd, os oes, o'r rhestr isod (Ffigur 31) yr oeddent wedi cael sgysiau gyda'u defnyddwyr gwasanaeth amdanynt yn ystod y 12 mis diwethaf. Imiwneiddiadau/brechiadau oedd y pwnc a ddyfynnwyd amlaf (80%), ac yna heintiau/feirysau (60%), a chlefydau/afiechydon (54%).

Ffigur 31: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi cael unrhyw sgysiau neu gwestiynau gan eich defnyddwyr gwasanaeth am unrhyw un o'r pynciau isod?




Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth (70)
A1


4.1.3 Dwyn i gof sgysiau mewn cysylltiad â brechiadau

Gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth a oeddent wedi cael unrhyw sgysiau ynghylch brechiadau â defnyddwyr (Ffigur 32). Dywedodd tri o bob pedwar darparwr gwasanaeth (76%) eu bod wedi cychwyn trafodaethau o'r fath, a dywedodd cyfran is (56%) eu bod wedi cael sgysiau a ddechreuwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Nid yw oddeutu un o bob 10 (11%) wedi cael unrhyw sgysiau am frechiadau â defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf.

Ffigur 32: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi cael unrhyw sgysiau neu gwestiynau/sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth am imiwneiddio/brechu?



Pan fo darparwyr wedi cael y sgysiau hyn, y brechlynnau y siaradwyd mwyaf amdanynt yw COVID-19 (82%) a'r ffliw (77%). Trafodwyd brechlynnau eraill yn llawer llai aml, a sgysiau am MMR (25%) yr uchaf wedyn.


Ffigur 33: Pa frechiad oedd y sgwrs amdano?

Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth sydd wedi cael sgysiaau am frechiadau (61)

A3

Mae'r mwyafrif o'r darparwyr gwasanaeth sy'n cael sgysiaau am frechiadau yn gwneud hynny unwaith yr wythnos neu'n amlach (69%). Ar y cyfan, mae tri o bob pedwar darparwr gwasanaeth (77%) sy'n cael sgysiaau am frechiadau â defnyddwyr gwasanaeth yn dweud eu bod yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis.

Ffigur 34: A pha mor aml ydych chi'n tueddu i gael sgysiau am frechiadau â'ch defnyddwyr gwasanaeth?



Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth sydd wedi cael sgysiau am frechiadau (61)
A5

Dywedodd y darparwyr gwasanaeth a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ansoddol fod y sgysiau y maent yn tueddu i'w cael â defnyddwyr gwasanaeth am frechiadau yn canolbwyntio ar atgoffa/annog defnyddwyr i gael brechiadau ac ateb cwestiynau am sgil-ffeithiau a chynhwysion.

“Rwy’n galw rhieni ynghylch a yw eu plant wedi methu eu brechiadau. Yna, rwy’n gofyn a ydyn nhw’n dymuno mynd yn ôl ar yr amserlen a threfnu un ai peidio”. Staff gofal sylfaenol

“Sgysiau gyda phlant a phobl ifanc i drafod sgil-ffeithiau/sut y byddan nhw’n teimlo, ac a oes angen iddyn nhw gael [brechlynnau] yn yr ysgol”. Staff gofal sylfaenol


“[Mae trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth mewn cysylltiad â] Chynhwysion yn bennaf”. Staff gofal sylfaenol

Roedd gan ddarparwyr gwasanaeth brofiad o ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi dod ar draws camwybodaeth, yn enwedig ers pandemig COVID-19. Cynhwysir rhagor o wybodaeth am gamwybodaeth yn yr is-adran ganlynol.

4.1.4 Dwyn i gof gwestiynau/sylwadau sy'n peri pryder mewn cysylltiad â brechiadau

Yna gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth a oedd wedi cael sgysiau gyda'u defnyddwyr gwasanaeth am frechiadau a oedd gan eu defnyddwyr gwasanaeth unrhyw sylwadau neu gwestiynau yn ymwneud yn benodol â phryderon neu boen meddwl ynghylch cael brechiadau (Ffigur 35). Dywedodd y mwyafrif helaeth (89%) o'r darparwyr gwasanaeth eu bod wedi cael y math hwn o sylwadau neu gwestiynau gan eu defnyddwyr gwasanaeth.

Ffigur 35: Ac yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych wedi cael unrhyw sylwadau neu gwestiynau gan ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn poeni neu'n pryderu am gael brechiadau?




Sylfaen: Darparwyr gwasanaeth sydd wedi cael sgysiau am frechiadau (61)

A6


Yna gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth a oedd wedi cael sylwadau neu gwestiynau gan ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn poeni am gael brechiadau pa frechiad(au) y mynegodd eu defnyddwyr gwasanaeth bryderon amdanynt (Ffigur 36). Dywedodd y mwyafrif helaeth fod pryderon eu defnyddwyr gwasanaeth yn gysylltiedig â'r brechlyn COVID-19 (87%). Roedd y brechlyn fflw hefyd yn destun pryder cyffredin (56%). Soniwyd am weddill y brechlynnau gan lai nag dau o bob 10 ymatebydd.

Ffigur 36: Pa frechiad(au) wnaethoch chi deimlo'n bryderus amdanyn nhw?



Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth a oedd â defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn poeni (54)
A7

Gofynnwyd hefyd i ddarparwyr gwasanaeth a oedd wedi cael sylwadau neu gwestiynau gan ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn poeni am gael brechiadau beth oedd defnyddwyr y gwasanaeth yn poeni amdano (Ffigur). Y pryder allweddol yw sgil-efeithiau brechlynnau (93%). Dilynir hyn gan bryderon ynghylch a yw brechlynnau wedi eu profi'n iawn (63%), a phryderon am y cynhwysion mewn brechlynnau (50%).

Ffigur 37: A beth oedden nhw'n poeni amdano?

Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth a oedd â defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn poeni (54)
A9

Roedd teimlad hefyd ymhlith y darparwyr gwasanaeth a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ansoddol bod y gamwybodaeth ynghylch brechlynnau COVID a MMR wedi newid y math o sgysrsiau y maent yn eu cael â defnyddwyr gwasanaeth, a bod y rhain bellach yn canolbwyntio'n fwy ar 'chwalu mythau' a cheisio dysgu defnyddwyr sut i feirniadu'r wybodaeth y maent yn dod ar ei thraws fel eu bod yn gwahaniaethu rhwng ffynonellau dibynadwy a ffynonellau nad ydynt yn ddibynadwy.

“Newidiodd COVID y dirwedd [frechu] yn eithaf sylweddol a'r sgysrsiau, ac mae'n ymwneud yn y bôn â beth sy'n gywir a beth nad yw'n gywir, beth sy'n ffeithiol a beth nad yw'n ffeithiol, oherwydd bod cymaint o gamwybodaeth ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol. A dyna'r bryder sydd gan bobl. Felly beth oeddwn i'n ceisio ei ddweud wrthyn nhw ydy 'edrychwch o ble mae'r ffynhonnell yn dod'. Rydym ni'n dweud wrthyn nhw lle maen nhw'n gallu dod o hyd i'r ffynhonnell, os yw hi o www.itsyourtime neu speaknow.com, 'dyw hi ddim yn dod o lechyd Cyhoeddus Cymru mewn gwirionedd. Felly pethau fel yna yw hi mewn gwirionedd, gan eu gwneud nhw'n ymwybodol o ryw faint o'r wybodaeth sydd ar gael". Staff gofal eilaidd

“Mae pobl yn dal i boeni ychydig am awtistiaeth ac mae gennym ni rai pobl ar ôl o hyd nad yw'n dymuno cael y brechlyn MMR. Ac felly mewn gwirionedd yr hyn rwy'n ceisio ei wneud yw chwalu mythau [...] gyda rhai rhieni". Staff gofal sylfaenol

4.2 Ymwybyddiaeth wedi'i hysgogi o'r holl frechiadau sydd ar gael

4.2.1 Cyflwyniad


Mae'r adran hon yn edrych ar ymwybyddiaeth o'r holl frechiadau a gynigir i staff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ymhlith darparwyr gwasanaeth.

4.2.2 Ymwybyddiaeth o'r brechiadau sydd ar gael i staff iechyd a gofal cymdeithasol

Gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth pa frechiadau maen nhw'n credu sy'n cael eu cynnig i staff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (Ffigur). Y brechlynnau a gydnabyddir yn fwyaf eang fel rhai sydd ar gael yw COVID-19 (97%) a'r ffliw (93%). Dilynr hyn gan Hepatitis B (76%) a MMR (40%). Roedd llai na thri o bob 10 defnyddiwr gwasanaeth yn ymwybodol o frechlynnau eraill a gynigir i staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Ffigur 38: Pa frechlynnau ydych chi'n meddwl sydd ar gael i staff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd?

Darparwyr Gwasanaeth



Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth (70)
B1

4.3 Cael gafael ar wybodaeth a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau

4.3.1 Cyflwyniad


Mae'r adran hon yn edrych ar y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiodd darparwyr gwasanaeth i gael gwybod am frechiadau/cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth ac i ba raddau y maent yn ymddiried mewn gwahanol ffynonellau. Mae effaith sgysrsiau gyda defnyddwyr gwasanaeth ar o broses o wneud penderfyniadau ynghylch cael eu brechu yn cael ei archwilio hefyd.

4.3.2 Lefelau gwybodaeth

Gofynnwyd i'r darparwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn yr arolwg i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am wybodaeth am frechu a sut maent yn rhwngweithio â defnyddwyr gwasanaeth (Ffigur). Roedd y mwyafrif helaeth o'r darparwyr (89%) yn cytuno eu bod yn gwybod ble i gyfeirio defnyddwyr gwasanaeth fel y gallant ddysgu mwy am frechiadau. Yn yr un modd, cytunodd y mwyafrif o'r darparwyr hefyd eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth i helpu defnyddwyr i wneud penderfyniad gwybodus ar frechiadau (86%) a'u bod yn teimlo'n hyderus yn siarad â defnyddwyr gwasanaeth am ddifrifoldeb y clefydau y mae brechlynnau'n eu hamddiffyn yn eu herbyn (86%).

Ymhellach, mae ychydig o dan wyth o bob 10 (79%) yn teimlo'n hyderus yn cychwyn sgysiau am frechiadau â'u defnyddwyr gwasanaeth. Ac mae saith o bob 10 yn teimlo'n hyderus yn egluro i ddefnyddwyr gwasanaeth sut mae brechlynnau'n gweithio neu wrth ateb cwestiynau am hynny (74%). Cytunodd cyfrannau tebyg fod ganddynt ddigon o wybodaeth i helpu defnyddwyr gwasanaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch brechu (71%) a'u bod yn teimlo'n hyderus yn siarad â defnyddwyr gwasanaeth neu wrth ateb cwestiynau am ddiogelwch brechlynnau (70%). Hefyd, mae 67% yn teimlo'n hyderus yn siarad â defnyddwyr gwasanaeth neu wrth ateb cwestiynau am sgil-effeithiau brechlynnau. Dim ond oddeutu un o bob 10 oedd yn anghytuno â'r datganiadau hyn.

Fodd bynnag, mae'r graddau y maent yn cytuno â'r ddau ddatganiad canlynol yn is na'r hyn ar gyfer y rhai a drafodir uchod: Cytunodd 53% eu bod yn teimlo'n hyderus yn siarad â defnyddwyr gwasanaeth neu wrth ateb cwestiynau am sut mae brechlynnau'n cael eu profi, a cytunodd cyfran debyg (50%) eu bod yn teimlo'n hyderus yn siarad â defnyddwyr gwasanaeth neu wrth ateb cwestiynau am gynhwysion brechlynnau. Roedd tri o bob 10 darparwr gwasanaeth yn anghytuno â'r ddau ddatganiad hyn (29% a 33% yn y drefn honno). Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu efallai bod angen rhagor o wybodaeth am brofion a chynhwysion brechlynnau ar ddarparwyr gwasanaeth i gynyddu eu hyder pan maent yn ymdrin â chwestiynau neu sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Ffigur 39: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth (70)
 C1


*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

Gofynnwyd mewn cwestiwn agored i'r darparwyr gwasanaeth a oedd yn anghytuno ag unrhyw un o'r datganiadau uchod pa wybodaeth sydd ar goll a beth arall y byddai ei angen arnynt i'w helpu i deimlo'n fwy hyderus yn siarad â defnyddwyr gwasanaeth am frechiadau. Dim ond 15 oedd cyfanswm yr ymatebwyr a anghytunodd â'r datganiadau yn y ffigur uchod, ac o'r herwydd, dylid dehongli'r canlyniadau ar gyfer y cwestiwn ychwanegol hwn yn ofalus. Mae'r ymatebion a roddwyd yn canolbwyntio ar gael rhagor o wybodaeth am frechiadau mewn cysylltiad â chynhwysion, sgil-ffeithiau a phrofion.

4.3.3 Ffynonellau gwybodaeth

Gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth hefyd am y ffynonellau y maent yn eu defnyddio i ganfod mwy am frechiadau, naill ai drostynt eu hunain neu ar gyfer eu defnyddwyr gwasanaeth (Ffigur). Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir amlaf ymhlith darparwyr gwasanaeth (67%), ac yna gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (64%), taflenni gwybodaeth y GIG (59%), a gwefan y GIG (54%). Soniwyd am weddill y ffynonellau gan lai na 25% o'r ymatebwyr.

Ffigur 40: Pa rai o'r canlynol ydych chi wedi eu defnyddio cyn heddiw i gael mwy o wybodaeth am frechiadau neu i gyfeirio eich defnyddwyr gwasanaeth atynt fel y gallant gael rhagor o wybodaeth am frechiadau?




Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth (70)

G1

4.3.4 Ymddiriedaeth mewn ffynonellau gwybodaeth

Ar ôl iddynt gael eu holi am ffynonellau gwybodaeth, gofynnwyd i'r darparwyr gwasanaeth i ba raddau y maent yn ymddiried yn y ffynhonnell/ffynonellau yr oeddent wedi eu defnyddio. Mae ymddiriedaeth yn uchel ymhlith darparwyr gwasanaeth. Ar y cyfan, mae rhwng saith ac wyth o bob 10 yn ymddiried yn fawr yn y ffynonellau canlynol: gwefan ICC (85%), taflenni gwybodaeth y GIG (85%), a meddygon/nyrsys/gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill (75%).

Ffigur 41: Ac i ba raddau ydych chi'n ymddiried yn yr wybodaeth am frechu o'r ffynonellau hyn?



Sylfaen: Darparwyr gwasanaeth sydd wedi defnyddio pob adnodd (maint sylfaen mewn cromfachau) G2

*Dim ond canlyniadau ar gyfer ffynonellau a ddefnyddir gan o leiaf 30 o'r ymatebwyr yng nghwestiwn G1 sy'n cael eu dangos

*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

Gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ansoddol pa ffynonellau gwybodaeth y maent yn ymddiried ynddynt i addysgu eu hunain ac i ddarparu gwybodaeth i'w defnyddwyr gwasanaeth. Soniwyd yn gyffredin am daflenni gwybodaeth y GIG a gwefan y GIG a gwefan ICC a thaflenni ICC. Fodd bynnag, soniodd lleiafrif eu bod wedi cael rhai problemau wrth ddod o hyd i wybodaeth ar wefan ICC ers iddi gael ei diweddarau. Mae'r materion hyn yn ymwneud â llywio, ac mae rhai yn cael trafferth wrth ddod o hyd i gwestiynau cyffredin a thaflenni gwybodaeth.

Gwerthusiad o adnoddau gwybodaeth a ddatblygwyd gan Raglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru

“Un o'r materion mawr sydd gen i gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd yw ei bod wedi newid ei gwefan a [...] byddwn i'n mynd cyn belled â dweud nad yw'n addas i'r diben. 'Allaf i ddim dod o hyd i ddim byd yno sydd ei eisiau arnaf i. Taflenni gwybodaeth ac os bydd rhywun yn dod gydag ymholiad, clinigwr sy'n dod atom ni gydag ymholiad fel arfer, rwyf bob amser yn hoffi rhoi'r dystiolaeth iddo dros pam y dywedir rhywbeth ac mae ychydig o bethau a arferai fod ar y dudalen cwestiynau cyffredin ar yr hen wefan ond bellach dim ond y fflw a COVID yw'r dudalen cwestiynau cyffredin. Does dim byd [ar gyfer] brechlynnau eraill, felly 'allaf i ddim dod o hyd i'r dystiolaeth yr oeddech chi'n arfer gwybod ble oedd hi”. Staff gofal eilaidd

“Rwy'n archebu taflenni gwybodaeth [ar wefan ICC]. Unwaith eto, mater arall sydd gen i yw ceisio dod o hyd i'r cyfieithiadau ohonyn nhw mewn ieithoedd [eraill], felly mae'n rhaid i mi wneud nodyn i mi fy hun eto bob amser, oherwydd ei bod yn haws mynd yn uniongyrchol â'r ddolen sydd gen i yma i gael fersiynau tramor o bethau, oherwydd unwaith eto, ar y wefan Gymreig, 'alla i ddim dod o hyd i bethau'n rhwydd o gwbl”. Staff gofal sylfaenol

“Dyw pob un o'r taflenni ar dudalen we [y GIG] ddim wedi'u rhestru [ar wefan ICC]. [“Dyw hi ddim yn ymddangos bod y taflenni gwybodaeth ar wefan ICC] mewn unrhyw drefn, 'dydyn nhw ddim yn nhrefn yr wyddor. Efallai eu bod nhw yn nhrefn pryd y cawsant eu diweddarau, ond mae'n ddistrwythur. [...] 'Dydych chi ddim yn gwybod a ydych chi'n mynd i ddod o hyd i'r wybodaeth ai peidio. Ac yna rydym ni'n rhoio at y peth sydd ei angen arnom ni. Ac mae'n anodd iawn ei darllen. [...] Mae'n [rhy fach]”. Staff gofal eilaidd

O ystyried y problemau hyn, dywedodd rhai darparwyr gwasanaeth eu bod yn defnyddio gwefannau eraill i ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth, megis gwefannau iechyd cyhoeddus Lloegr neu'r Alban, yn enwedig ar gyfer dod o hyd i daflenni gwybodaeth a/neu ddod o hyd i wybodaeth sydd wedi ei chyfieithu i ieithoedd eraill.

“Dydw i ddim hyd yn oed yn trafferthu mynd at wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rwy'n gwneud chwiliad Google am yr hyn sydd ei angen arnaf i. Mae hi mor ddrwg â hynny. Yn y pen draw, rwy'n dod o hyd i bethau ar wefan yr Alban gymaint ag unrhyw le arall, neu rwy'n ceisio mynd yn syth at [wefan iechyd cyhoeddus] Lloegr, ond wrth gwrs 'dydych chi byth yn gwybod a fydd mân addasiadau arnyn nhw o'u cymharu â gwefan Cymru, oherwydd yn dechnegol fe ddylen ni fod yn defnyddio adnoddau Cymru”. Staff gofal eilaidd

Mae'r awgrymiadau ar gyfer gwella'r materion llywio ar wefan ICC yn cynnwys cael tudalennau cryno a chategoreiddio'r holl daflenni gwybodaeth sydd ar gael (e.e. yn nhrefn yr wyddor) a gwella'r swyddogaeth chwilio.

“Mae angen rhywbeth tebyg i dudalen gryno arnoch chi sy’n dangos yr holl daflenni gwybodaeth, oherwydd bod pobl yn cael trafferth archebu. Mae rholio drwy hyn i gyd yn cymryd oes. A phan mae pobl mor brysur, does ganddyn nhw mo’r amser. Felly efallai bod angen i bobl wybod ar dudalen gryno pa daflenni gwybodaeth sydd ar gael i’w defnyddwyr gwasanaeth. Mae angen adnewyddu popeth mewn gwirionedd”. Staff gofal eilaidd

“Pe byddai ganddi fformat tebyg i’r ffordd yr oedd o’r blaen, lle’r oedd popeth gyda’i gilydd ac roeddech chi’n gallu dod o hyd i bethau fesul clefyd neu frechlyn neu pe byddai’r blwch chwilio yn ddefnyddiol i unrhyw raddau o gwbl â’r termau allweddol yr ydych chi’n eu mewnbynnu gan mai sothach yw ef mewn gwirionedd, byddai’n rhaid i chi dreulio oesoedd yn rholio drwy lwythi o bethau nad ydynt yn berthnasol o gwbl”. Staff gofal eilaidd


Ar wahân i wefannau GIG Cymru ac ICC, gwefan arall y cyfeiriwyd ati’n gyffredin ymhlith darparwyr gwasanaeth at ddibenion darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth oedd Oxford Vaccine Knowledge Project. Roedd darparwyr gwasanaeth yn teimlo bod hon yn wefan dda i gyfeirio defnyddwyr ati oherwydd ei bod yn darparu gwybodaeth am wahanol agweddau ar frechiadau, megis cynhwysion a gwiriadau diogelwch, gan fod yn rhwydd ei defnyddio hefyd gan ei bod yn cynnwys fideos gydag adroddiadau personol.

“[Oxford Vaccine Knowledge Project] fyddai’r [wefan] yr wyf yn dibynnu arni ac yn ei defnyddio’n aml. Rwy’n credu y gall gwefannau’r GIG achosi pobl i gollu ymddiriedaeth oherwydd eu bod yn ei hystyried hi fel busnes y llywodraeth. Os ydych chi’n rhoi rhywbeth annibynnol iddyn nhw, maen nhw’n fwy tebygol o’i dderbyn, rwy’n meddwl. Hefyd, dw i ddim yn credu bod gwefannau’r GIG mor ddiddorol i ryngweithio â nhw o’u cymharu â’r Vaccine Knowledge Project hwn. Mae’n delio â’r rhan fwyaf o bethau serch hynny, megis llawer o’r rhesymau y byddwn i’n eu defnyddio a fyddai ar gyfer pobl a oedd rhwng dau feddwl. Felly bydd ganddyn nhw bryderon am frechlynnau ac mae gan hynny adrannau penodol ar bethau megis y cynhwysion yn y brechlynnau neu beth oedd y gwiriadau diogelwch. Mae ganddi fideos o brofiadau personol pobl, felly gallai fod yn rhywun yr oedd ganddo blentyn awtistig”. Staff gofal sylfaenol

4.3.5 Y broses o wneud penderfyniadau


Gofynnwyd i’r darparwyr gwasanaeth a ydynt wedi cael sgysiau gyda defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn betrusgar ynghylch a ddylid cael eu brechu ai peidio (Ffigur). Dywedodd naw o bob 10 (89%) darparwr eu bod wedi cael sgysiau gyda defnyddwyr petrusgar, dywedodd naw y cant nad oeddent wedi gwneud hynny a dywedodd dau y cant nad oeddent yn gwybod neu nad oeddent yn gallu cofio.

Ffigur 42: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi cael unrhyw sgysiau ag un neu fwy o ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn betrusgar ynghylch a ddylent gael eu brechu ai peidio?



Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth (70)
F1


Pan fo darparwyr gwasanaeth wedi cael sgysiau gyda defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn betrusgar ynghylch cael eu brechu, maent yn dweud bod mwyafrif helaeth y sgysiau hyn yn ymwneud â brechlynnau COVID-19 yn benodol (85%). Dilynrir hyn gan y brechlyn fflw (55%). Cyfeiriwyd at weddill y brechlynnau gan un o bob 10 ymatebydd neu lai.

Ffigur 43: A pha frechlynn(au) oedden nhw'n betrusgar yn eu cylch?

Sylfaen: Darparwyr gwasanaeth sydd wedi cael trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth petrusgar (62)
F1A

Gofynnwyd i'r darparwyr gwasanaeth sydd wedi cael trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth petrusgar a oedd ganddynt yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i gael y sgysiau hyn (Ffigur). Dywedodd wyth o bob 10 (82%) fod ganddynt yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt, a dywedodd 18% nad oeddent ganddynt yr wybodaeth hon.

Ffigur 44: Ac a oedd gennych yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnoch i siarad â'ch defnyddw(y)r gwasanaeth?




Sylfaen: Darparwyr gwasanaeth sydd wedi cael trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth petrusgar (62)
F2

O blith y darparwyr gwasanaeth a ddywedodd nad oedd ganddynt yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i siarad â'u defnyddwyr gwasanaeth (cyfanswm o 11 ymatebydd), dywedodd pedwar ymatebydd nad oeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt. Yna gofynnwyd i'r pedwar ymatebydd hyn beth oedd ar goll. Dywedasant y byddent wedi hoffi gwybod mwy am yr union fanylion neu am astudiaethau ymchwil i'w rhannu. Dylid dehongli canlyniadau'r cwestiynau hyn yn ofalus o ystyried y meintiau sylfaen isel.

Hefyd, gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi cael sgysiau gyda defnyddwyr gwasanaeth petrusgar am ganlyniad y sgysiau hynny (Ffigur). Dywedodd ychydig dros hanner y darparwyr fod y defnyddwyr gwasanaeth wedi newid eu meddwl a phenderfynu imiwneiddio yn dilyn y sgysiau hyn (53%), a dywedodd un o bob pedwar (26%) nad oedd y defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno imiwneiddio beth bynnag, ac nid oedd 21% yn gwybod beth oedd y canlyniad.

Ffigur 45: Ac a wnaeth eich defnyddw(y)r gwasanaeth newid eu meddwl?



Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth sydd wedi cael trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth petrusgar (62)
F5

4.4 Derbyn brechlynnau, rhwystrau ac ysgogiadau


4.4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio safbwyntiau darparwyr gwasanaeth ar rhwystrau defnyddwyr gwasanaeth a'u hysgogiadau dros dderbyn imiwneiddiadau.

4.4.2 Rhwystrau i dderbyn brechlyn

Gofynnwyd i'r darparwyr gwasanaeth beth maent yn credu sy'n rhwystro defnyddwyr gwasanaeth rhag cael brechlynnau (Ffigur). Mae'r rhwystr mwyaf cyffredin a ddyfynnwyd yn ymwneud â phryderon am ddiogelwch brechlynnau a sgil-effeithiau (61%). Mae hyn ddwywaith mor debygol â'r rheswm nesaf a roddwyd, sef bod defnyddwyr wedi clywed twyllwybodaeth yn y cyfryngau neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu ffrindiau (29%). Mae'r rhwystrau eraill a ddyfynnwyd yn llai cyffredin yn cynnwys: diffyg ymddiriedaeth mewn brechlynnau (19%), canfyddiad nad oes angen rhai brechlynnau oherwydd bod y clefydau yr un mor ddifrifol (16%), awydd i gael mwy o wybodaeth am frechlynnau (14%), ac amheuan ynghylch effeithiolrwydd brechlyn (11%). Soniwyd am weddill y themâu gan lai nag un o bob 10 ymatebydd. Mae'r rhwystrau hyn yn cyd-fynd â'r rhai y mae'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain wedi sôn amdanynt (Ffigur).


Ffigur 46: Gan feddwl unwaith eto am eich profiad o ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth, beth ydych chi'n meddwl yw'r rhesymau pam fo rhai ohonynt yn gwrthod brechiadau?



4.4.3 Ysgogiadau

Gofynnwyd i'r darparwyr gwasanaeth beth maent yn credu yw ysgogiadau eu defnyddwyr gwasanaeth dros gael eu brechu (Ffigur). Dywedodd darparwyr gwasanaeth, ar sail eu profiad, fod diogelu eu hunain (61%) ac eraill (40%) yn ysgogiad allweddol dros gael eu brechu. Soniwyd am resymau eraill yn llai aml ac maent yn cynnwys: gallu teithio (13%), ymddiried ym marn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (saith y cant), dymuno cydymffurfio â'r cyngor yn gyffredinol (saith y cant) neu gyngor gan ffrindiau a theulu yn benodol (saith y cant), a bod brechu'n ofyniad cyflogaeth (chwe y cant).

Ffigur 47: A chan feddwl unwaith eto am eich profiad o ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth, beth ydych chi'n meddwl yw ysgogiadau eich defnyddwyr gwasanaeth dros gael eu brechu pan fo brechlynnau'n cael eu cynnig iddynt?



Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth (70)
D2

Mae mewnwelediadau ansoddol yn cadarnhau mai diogelu eu hunain ac eraill yw'r prif ysgogiad i ddarparwyr gwasanaeth gael brechiadau eu hunain hefyd.

“Rwy’n eiriolwr mawr dros frechlynnau. Rwy’n eu hyrwyddo yn y gwaith, yn amlwg, dyma fy swydd bob dydd, a chyda theulu a ffrindiau. Mae’n arbedwr bywyd cwbl hanfodol, yn y bôn. ‘Dyw pobl ddim yn sylweddoli hynny, ond mae’r cyfan yn y model atal. A dyna pam mae’n bwysig cynyddu gymaint â phosibl y nifer sy’n eu derbyn nhw”. Staff gofal iechyd

Efallai y bydd angen ymchwil pellach i archwilio’n fanylach ysgogiadau a rhwystrau darparwyr gwasanaeth rhag derbyn brechlynnau eu hunain, yn hytrach na’u defnyddwyr gwasanaeth.

4.5 Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd ICC


4.5.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn dadansoddi ymwybyddiaeth darparwyr gwasanaeth o gyhoeddusrwydd ICC mewn cysylltiad â brechiadau. Yna mae'n archwilio sianeli y mae ymatebwyr wedi dod ar draws cyhoeddusrwydd ICC drwyddynt yn ogystal â safbwyntiau ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd ICC.

4.5.2 Ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ICC

Dangoswyd set o wahanol adnoddau gwybodaeth ICC am frechu i ddarparwyr gwasanaeth hefyd a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi eu gweld o'r blaen (Ffigur). Amlinellir y deunyddiau a ddangoswyd i'r darparwyr gwasanaeth yn Atodiad 3: Deunyddiau a werthuswyd yn yr arolwg meintiol. Ar y cyfan, mae ychydig o dan naw o bob 10 (89%) darparwr wedi gweld o leiaf un o'r adnoddau gwybodaeth o'r blaen, ac nid yw naw y cant wedi gwneud hynny, ac nid oedd y gweddill yn gwybod. Fel y gellid disgwyl, mae ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ICC yn sylweddol uwch ymhlith darparwyr gwasanaeth (89%) nag ymhlith defnyddwyr gwasanaeth (41%).


Ffigur 48: A ydych chi wedi gweld unrhyw un o'r adnoddau hyn cyn heddiw?



Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth (70)


H1

Pan ofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi gweld adnoddau ICC ble'r oeddent, dywedodd dros hanner eu bod mewn canolfan frechu (53%), a chyfeiriodd dau o bob pump at eu gweithle (19%). Ar y cyfan, mae 66% wedi dod ar draws cyhoeddusrwydd ICC mewn lleoliad gofal iechyd.

Ffigur 49: Ble wnaethoch chi weld hyn?

Sylfaen: Darparwyr gwasanaeth sydd wedi gweld adnoddau ICC (62)
H2

Dywedodd y mwyafrif o'r darparwyr gwasanaeth (86%) eu bod wedi gweld logo *Mae Brechu yn achub bywydau/Vaccination saves lives* cyn cymryd rhan yn yr arolwg, ac mae'r gyfran yn uwch nag ymhlith defnyddwyr gwasanaeth (39%), fel y nodwyd ar gyfer ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ICC.

Ffigur 50: Oeddech chi wedi gweld y logo isod cyn heddiw?


Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth (70)
H5

4.5.3 Safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd ICC

Fel gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofynnwyd i'r darparwyr gwasanaeth a ddywedodd yn yr arolwg eu bod wedi gweld adnoddau gwybodaeth ICC ynghylch brechiadau am eu safbwyntiau ar y deunyddiau a ddangoswyd iddynt (Ffigur).

Mae 84% o'r rhai a oedd wedi gweld y deunyddiau yn fodlon ar y cyfan, a mynegodd cyfrannau tebyg safbwyntiau cadarnhaol am faint o wybodaeth (dywedodd 90% ohonynt fod hyn yn dda iawn neu'n weddol dda), pa mor glir yw'r wybodaeth (90%) a'r cynllun/diwyg (89%). Roedd gweddill yr ymatebwyr naill ai'n niwtral neu'n dweud nad oeddent yn gwybod, a dim ond tri y cant oedd o'r farn bod un o'r agweddau hyn yn negyddol: faint o wybodaeth, gyda thri y cant yn dweud bod hyn yn eithaf gwael.


Ffigur 51: Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael yw elfennau canlynol y taflenni gwybodaeth/postiadau cyfryngau cymdeithasol?



Sylfaen: Pob darparwr gwasanaeth sydd wedi gweld adnoddau ICC (62)
H3

*Mae labeli o dan bump y cant wedi eu dileu i hwyluso darllen

